Llywodraeth Cymru
Welsh Government





# Canllawiau Gwerth Cymdeithasol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy




Cymunedau **Dysgu** Cynaliadwy
Sustainable Communities for **Learning**

Dogfen ganllawiau rhif: 302/2026

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2026

Yn disodli dogfen ganllawiau rhif: 280/2022

**Cynulleidfa**

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau esgobaethol, contractwyr ac ymgynghorwyr.

**Trosolwg**

Bydd y canllawiau hyn yn helpu'r rhai sy'n datblygu elfen Gwerth Cymdeithasol yr achos busnes.

**Camau i'w cymryd**

Dylid defnyddio'r canllawiau wrth baratoi achosion busnes er mwyn cael arian cyfalaf a refeniw o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac wrth gyflawni'r prosiect er mwyn sicrhau bod gofynion adrodd yn cael eu bodloni.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:
Seilwaith, Llywodraethiant a Chyllid Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 257672
e-bost: cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

**Dogfennau cysylltiedig**

Canllawiau Achos Busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2026 WG53796 Digital ISBN 978-1-83715-951-2

# Cynnwys

**Cyflwyniad……………………………………………………………………..........4-5**

**Cysondeb Polisi………………………………………………………………………...6-7**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol…………………………………....6

Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru…………………………....7

Gwerth Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (TOMS Cymru) ……………7

Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru……………...7

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol Gwerth Cymdeithasol……………..8-9**

**Metrigau Adrodd Craidd..………………………………………………….........10-25**

Meincnodau……………………………………………………………….....10

Tystiolaeth……………………………………………………………………..11

Gweithlu……………………………………………………………………......11-14

Dysgu a Datblygu………………………………………………...................15-18

Mentrau Cymunedol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid………………….....18-22

Y Gadwyn Gyflenwi yng Nghymru…………………………………………...22-24

Talu Teg……………………………………………………………….............24-25

**Metrigau Gwerth Cymdeithasol sy'n Seiliedig ar Le………….………….....26-33**

Gweithlu…………………………………………………………………......26-29

Dysgu a Datblygu………………………………………..........……......30-32

Mentrau Cymunedol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid…………………....32-35

**Caethwasiaeth Fodern…………………………………………..……………....36**

**Contractau Tendro……………………………………………………………......37**

**Y Broses Fonitro ……………………………………………………….........38-44**

Dechrau a Diwedd y Prosiect……………………………………….......39-40

Yn Ystod y Prosiect……………………………………………………......40-42

Adrodd ar Gydymffurfiaeth……………………………………………......43-44

**Cwestiynau Cyffredin……………………………………………….............45-47**

## 1. Cyflwyniad

Yn dilyn Deddf Caffael 2023 a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, mae mwy o ddisgwyliadau nawr y dylai caffael cyhoeddus sicrhau canlyniadau gwell i gymdeithas a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i bartneriaid (Awdurdodau Lleol (ALl), Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) a Chontractwyr), gan sicrhau bod prosiectau sy'n rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy nid yn unig yn cyflawni nodau addysgol ond yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned hefyd.

Dylai'r canllawiau hyn gael eu defnyddio bob amser ar y ffrydiau cyllido canlynol:

- Rhaglen Dreigl
- Cyfrwng Cymraeg
- Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (noder nad yw rhai metrigau yn gymwys, fel y nodir drwy gydol y ddogfen.)

Nid ydynt yn gymwys i'r ffrydiau cyllido canlynol pan gânt eu defnyddio fel yr unig ffynhonnell gyllido gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, os bydd y ffrydiau hyn yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r uchod, dylid dilyn y canllawiau:

- Atgyweiriadau a Gwaith Cynnal a Chadw Cyfalaf
- Ysgolion Bro
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Gwaith Atgyweirio Brys i Ysgolion Gwirfoddol a Gynhelir

Er bod trawsnewidiad addysgol yn parhau i fod yn un o ganlyniadau hanfodol ein buddsoddiad yn y Rhaglen, rydym hefyd yn ceisio creu cymunedau llewyrchus, meithrin gwydnwch mewn busnesau lleol a hyrwyddo arferion cynaliadwy sydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol. Drwy ddiffinio'r amcanion hyn yn glir a'u monitro, gallwn gynyddu effaith hirdymor buddsoddiad, gan adael gwaddol parhaol a chadarnhaol.

Mae polisïau ehangach Llywodraeth Cymru wedi cael eu hymgorffori hefyd wrth ddatblygu'r metrigau Perfformiad Gwerth Cymdeithasol. I gael rhagor o wybodaeth am Gysondeb Polisi, darllenwch ymlaen, neu ewch yn syth i Adran 4.

Wrth wraidd metrigau Perfformiad Gwerth Cymdeithasol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy mae Amcanion Buddsoddi'r Rhaglen, sy'n ein galluogi i ddeall effaith ein buddsoddiad ac asesu perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn. Mae'r rhain wedi cael eu crynhoi yn nelwedd 1 isod.



### Trawsnewid Amgylcheddau Dysgu a Phrofiadau Dysgwyr:

- Creu lleoedd dysgu diogel, cynhwysol a diddorol.
- Cefnogi llesiant a'r Cwricwlwm i Gymru.
- Gwella seilwaith digidol i ddysgwyr a chymunedau.
- Cefnogi dysgwyr ag ADY a dysgwyr dan anfantais.

### Ateb y Galw am Leoedd Ysgol:

- Darparu seilwaith i ateb y galw nawr ac yn y dyfodol
- Cefnogi twf addysg Gymraeg
- Sicrhau bod digon o leoedd mewn ffrydiau Cymraeg a Saesneg





### Gwella Cyflwr ac Addasrwydd yr Ystad Addysg:

- Lleihau'r ôl-groniad cynnal a chadw ar draws yr ystad.
- Cael gwared ar adeiladau o ansawdd gwael (Categori D).
- Uwchraddio adeiladau i gyflwr Categori A neu B.

### Datblygu Amgylcheddau Dysgu Cynaliadwy:

- Cyflawni carbon sero net o safbwynt gweithredu ac adeiladu.
- Hyrwyddo bioamrywiaeth a theithio llesol.
- Dylunio adeiladau sy'n cefnogi cydnerthedd o ran yr hinsawdd ac addysg amgylcheddol.





### Cefnogi'r Gymuned:

- Sicrhau y gall cyfleusterau ysgol gael eu defnyddio'n hyblyg er budd y gymuned.
- Cynyddu gwerth cymdeithasol i'r eithaf drwy gaffael.
- Ehangu cyfleoedd dysgu oedolion.
- Cefnogi gwasanaethau integredig a chyd-leoli.

**DELWEDD 1: AMCANION BUDDSODDI'R RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY**

## 2. Cysondeb Polisi

Caiff y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ei hategu gan ymrwymiad cryf i gysondeb polisi cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod pob buddsoddiad yn cynnig gwerth cyhoeddus ystyrlon a mesuradwy. Drwy ymwreiddio fframweithiau polisi allweddol a blaenoriaethau strategol yng nghynllun a gweithrediad y Rhaglen, rydym yn sicrhau bod ein prosiectau'n cynyddu gwerth cymdeithasol i'r eithaf. Mae'r dull hwn yn gwarantu bod canlyniadau'r rhaglen yn gyson â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer budd cymunedol hirdymor, cynhwysol, a chynaliadwy.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Caiff Gwerth Cymdeithasol ei ddiffinio drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n gorfodi cyrff cyhoeddus i ystyried effaith hirdymor pob penderfyniad. Mae metrigau gwerth cymdeithasol y Rhaglen wedi cael eu datblygu i gyfrannu'n uniongyrchol at y saith nod llesiant, gan ymgorffori canlyniadau sy'n cefnogi llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol. Drwy hynny, mae'r Rhaglen yn hyrwyddo buddsoddiad strategol sy'n sicrhau buddion hirdymor i gymunedau ledled Cymru, gan helpu i greu Cymru sy'n fwy llewyrchus, cydnerth, iach a chyfartal yn unol â gweledigaeth gyffredinol y Ddeddf o ran datblygu cynaliadwy ac ansawdd bywyd gwell. [i]




**DELWEDD 2: NODAU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL.**

### Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn pennu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, wedi'u strwythuro ar sail y themâu llesiant, sef llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol. Mae'r themâu hyn wedi eu hymwreiddio ym metrigau gwerth cymdeithasol y Rhaglen, gan sicrhau bod pob prosiect a gyllidir yn cyfrannu'n ystyrlon at nodau'r Strategaeth. Drwy gysoni canlyniadau prosiectau â'r themâu hyn, mae'r Rhaglen yn cefnogi dull cyson a mesuradwy o sicrhau gwerth cyhoeddus hirdymor ledled Cymru.[ii]

### Gwerth Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n ddiweddar i ddatblygu System TOM ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r fethodoleg Buddion Cymunedol drwy Ganllawiau Gwerth Cymdeithasol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae'r ddau fodel yn cefnogi Nodyn Polisi Caffael Cymru 003 Cymalau Gwerth Cymdeithasol / Buddion Cymunedol drwy Gaffael Cyhoeddus.

**Un o amodau'r cyllid yw bod yn rhaid dilyn y canllawiau rhaglen-benodol hyn, ond gall partneriaid ddewis defnyddio system TOM Cymru a / neu'r Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol hefyd.**

### System TOM Cymru

Fframwaith mesur gwerth cymdeithasol yw TOMS (Themâu, Allbynnau a Mesurau) sy'n galluogi sefydliadau i fesur a dangos gwerth cymdeithasol ym maes caffael. Fe'u datblygwyd drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Social Value Portal.

Mae TOMs Cymru wedi cael eu teilwra'n benodol i Gymru, yn seiliedig ar y pedwar piler cynaliadwyedd yng Nghymru, ond fe'u hategir gan fesurau TOMs Cenedlaethol y DU a TOMs Byd-eang.

Maent yn golygu y gellir olrhain perfformiad yn erbyn blaenoriaethau lleol gan ddefnyddio gwerthoedd ansoddol a meintiol, gan gynnwys y gallu i roi gwerth ariannol i allbynnau allweddol. Yn ymarferol, defnyddir System TOMs Cymru i wneud y canlynol:

- **Ymwreiddio gwerth cymdeithasol** mewn ymarferion caffael.
- **Sgorio tendrau** yn seiliedig ar gyfraniadau gwerth cymdeithasol (yn aml hyd at 10% neu fwy o'r cyfanswm sgôr).
- **Olrhain canlyniadau ac adrodd** ar ganlyniadau fel cyflogaeth leol, ymgysylltiad cymunedol, ac effaith amgylcheddol.

Am ragor o wybodaeth am y System TOMS Gymraeg Newydd, e-bostiwch commercialprocurement.peoplecorporate@gov.wales

### Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru


Ers mis Mai 2017, bu'n ofynnol i bob prosiect cymeradwy yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy gwblhau Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru. Er mwyn osgoi dyblygu, nid yw'n ofynnol gwneud hyn mwyach.

**Caiff DPAau y Rhaglen eu cwblhau yn lle bod angen cwblhau Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru.**

## 3. Dangosyddion Perfformiad Allweddol Gwerth Cymdeithasol

Fel un o amodau'r cyllid, mae'n ofynnol i bartneriaid (ALI/SAB) adrodd ar fetrigau Gwerth Cymdeithasol Craidd. Cafodd y rhain eu datblygu i fodloni'r wyth Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPAau) sy'n dangos effaith Gwerth Cymdeithasol y prosiectau a gaiff eu rhoi ar waith o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Mae'r wyth DPA yn darparu fframwaith cyson i gofnodi gwerth cymdeithasol ac economaidd a gyflwynir drwy weithgarwch prosiect y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac adrodd arno. Maent yn canolbwyntio ar feysydd allweddol gan gynnwys cyflogaeth, datblygu'r gweithlu, sgiliau a hyfforddiant, cynhwysiant microfusnesau, busnesau bach a busnesau canolig (MSME) a mentrau cymdeithasol, cymunedol a gwirfoddol (VCSE), ymgysylltiad cymunedol, cyfraniad economaidd yng Nghymru, caffael cynaliadwy, ac arferion talu moesegol. Dyluniwyd y DPAau hyn i helpu i sicrhau adroddiadau tryloyw, llywio penderfyniadau, a dangos cysondeb ag egwyddorion y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac amcanion gwerth cyhoeddus ehangach.




DELWEDD 3: DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL (DPA) GWERTH CYMDEITHASOL Y RHAGLEN

Mae'r diagram isod wedi cael ei greu i ddangos sut mae'r wyth DPA yn gyson ag Amcanion Buddsoddi'r Rhaglen, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Phileri'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r map gweledol hwn yn dangos y dull integredig sydd ar waith i sicrhau bod darparu gwerth cymdeithasol yn cael ei ymwreiddio'n strategol ar draws dimensiynau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol yn ogystal â chefnogi uchelgeisiau polisi cenedlaethol a chanlyniadau cymunedol lleol.

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) | Amcanion Buddsoddi'r Rhaglen | | | | | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | | | | | | | Pileri'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Trawsnewid Amgylcheddau Dysgwyr a Phrofiadau Dysgwyr | Ateb y Galw am Leoedd Ysgol | Gwella Cyflwr ac Addasrwydd yr Ystad Addysg | Datblygu Amgylcheddau Dysgu Cynaliadwy | Cefnogi Cymunedau Dysgu | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru sy'n Fwy Cyfartal | Cymru o Gymunedau Cydlynus | Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang | Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Amgylcheddol | Cymdeithasol | Economaidd | Diwylliant |
| DPA 1: Cyflogaeth Leol a Chenedlaethol | | Ddim yn berthnasol | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | |
| DPA 2: Datblygu'r Gweithlu | | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | |
| DPA 3: Sgiliau, Dysgu a Datblygu | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | |
| DPA 4: Cynnwys MSME a VCSE | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | |
| DPA 5: Ymgysylltu â'r Gymuned a Chyfranogiad Cymunedol | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| DPA 6: Ôl-troed Economaidd Cymru | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | |
| DPA 7: Deunyddiau o Gymru | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| DPA 8: Arferion Gwaith Teg a Moesegol | | | | | ✓ | | | | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | |

DELWEDD 4: CYSONDEB DPAAU Y RHAGLEN, AMCANION BUDDSODDI'R RHAGLEN, DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL A'R STRATEGAETH BUDDSODDI YN SEILWAITH CYMRU

## 4. Metrigau Adrodd Craidd

I gyflawni'r 8 DPA Gwerth Cymdeithasol, mae 33 o fetrigau wedi cael eu datblygu y mae'n rhaid i bob prosiect eu cyflawni ac adrodd arnynt. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu yn 5 thema allweddol – Y Gweithlu, Dysgu a Datblygu, Mentrau Cymunedol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, y Gadwyn Gyflenwi yng Nghymru a Thalu Teg.

Mae'n ofynnol monitro perfformiad o ran yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd fel un o amodau'r cyllid. Canllawiau ar adrodd ar berfformiad o ran yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd bydd ar gael yn yr Haf 2026.

### Meincnodau

Mae meincnodau wedi cael eu pennu ar gyfer rhai metrigau i roi cysondeb a helpu i sicrhau gwerth cymdeithasol ystyrlon. Fodd bynnag:

- Ar gyfer prosiectau o dan £2 filiwn, gellir cynnig mwy o hyblygrwydd i leihau targedau. Ar gyfer prosiectau o dan y Rhaglen Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, gellir trafod hyn â'r tîm gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a thîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy gan fod y rhan fwyaf o brosiectau yn perthyn i'r categori hwn.

- Ar gyfer prosiectau sy'n eithriadol o gostus, lle mae targedau fesul £m yn llai effeithiol oherwydd maint y prosiect, mae'n bosibl y gellir negodi cap. Dylid codi hyn yn ystod y broses dendro a dylid dod i gytundeb â thîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

- Gallai rhai ardaloedd yng Nghymru gael anhawster bodloni meincnodau (e.e. prosiectau ar y ffin sy'n ceisio recriwtio gweithlu lleol; recriwtio prentisiaid mewn ardaloedd gwledig). Dylid trafod unrhyw leihad mewn targedau â thîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a fydd yn ystyried a yw'r targed diwygiedig yn briodol.

**Er eglurder, mae targedau fesul £m yn seiliedig ar gyfanswm costau adeiladu, nid gwerth y prosiect.**

Meincnodau dangosol yw'r rhain a dylid eu hystyried yn ystod y cam achos busnes wrth sefydlu'r dull Gwerth Cymdeithasol. Dylai partneriaid gyfeirio at yr Achos Masnachol yng Nghanllawiau Achos Busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Os bydd angen addasu targedau ar ôl y cam tendro neu yn ystod y cam cyflawni, bydd yr un broses a amlinellir yn Addasu Targedau yn gymwys.

Dylai unrhyw addasiad fod yn realistig ac yn gyraeddadwy a dylai fod wedi cael ei ddylunio i sicrhau effaith ystyrlon. Ni ddylid chwyddo targedu i ddangos y niferoedd uchaf, gan y gall hyn arwain at arferion gwael neu danseilio canlyniadau ansawdd. Dylid canolbwyntio bob amser ar sicrhau gwerth cymdeithasol gwirioneddol yn hytrach nag anelu at nifer ar draul ansawdd.

### Tystiolaeth Ategol

Rhaid i gontractwyr roi tystiolaeth o'r gwerth cymdeithasol a gyflawnwyd i bartneriaid cyflawni. Caiff partneriaid cyflawni eu hannog i archwilio'r data y maent yn eu coladu gan eu contractwyr a bydd y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cynnal gwiriadau achlysurol, felly dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn hawdd.

Gall partneriaid cyflawni ddefnyddio'r Atodiad 1b Templed Tystiolaeth o werth canlynoli goladu'r data; fodd bynnag, mae fersiynau tebyg hefyd yn addas.

### Gweithlu

**DPA 1: Effaith ar Gyflogaeth Leol a Chenedlaethol**

| Maes Targed | Dangosydd Is-gategori | Metrig | Meincnod | Amlder Adrodd | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **Data Cyflogeion** | Cyfanswm a gyflogir yn y gadwyn gyflenwi | Cyfanswm nifer y cyflogeion yn y gadwyn gyflenwi | Casglu Data | Adroddiad Cau Blynyddol (Ch4) | Ddim yn berthnasol |
| | Cod post cartref y rhai a gyflogir yn y gadwyn gyflenwi (Ffin Awdurdod Lleol) | (%) Canran y cyflogeion y mae eu cod post o fewn ffiniau'r Awdurdod Lleol | 30% | Adroddiad Cau Blynyddol (Ch4) | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Cod post cartref y rhai a gyflogir yn y gadwyn gyflenwi (Ffin Cymru) | (%) Canran y cyflogeion y mae eu cod post o fewn ffiniau Cymru | 60% | Blynyddol (Ch4) Adroddiad Cau | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Gweithlu Cymraeg | (%) Canran y cyfanswm a gyflogir sy'n siarad Cymraeg | Casglu Data (O leiaf A2) | Adroddiad Cau | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |

| DPA 2: Datblygu'r Gweithlu a Chynhwysiant |
|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Newydd-ddyfodiaid** | Swyddi a grëwyd i newydd-ddyfodiaid | Nifer y swyddi a grëwyd i newydd-ddyfodiaid | Prosiect-benodol | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Wythnosau person newydd-ddyfodiaid | Wythnosau person | 52 wythnos fesul £1m | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |

## Gwybodaeth Ategol

### Cod Post Cartref

Mae'n ofynnol i bartneriaid gasglu data ar godau post cartref cyflogeion sy'n gweithio fel rhan o'r prosiect ar gyfer y gadwyn gyflenwi gyfan. Gwneir hyn er mwyn deall ble y caiff swyddi eu creu o ganlyniad i'r prosiect a dangos yr effaith bosibl ar yr economi leol.

Rhaid i'r data hyn adlewyrchu man preswylio arferol y cyflogai,  nid ei fan preswylio ar gyfer gwaith prosiect yn unig.

Gall hyn gynnwys llety dros dro, os caiff yr amodau canlynol eu bodloni:

- Y cod post dros dro yw prif breswylfa'r unigolyn yn ystod ei gyfnod cyflogaeth, ac nid oes ganddo breswylfa barhaol arall ar yr un pryd.
- Mae'r unigolyn yn byw mewn llety trosiannol neu lety â chymorth (e.e., cyn-droseddwyr, personau digartref, neu'r rhai mewn tai cymdeithasol) a dyma yw ei brif breswylfa.

Pennwyd mai prif ddiffiniad y gair ‘lleol’ yw o fewn ffin yr Awdurdod Lleol. Mewn achosion eithriadol, lle bo cyfiawnhad, gallai'r diffiniad ymestyn i gynnwys y ffin ranbarthol.

Mae'r ffin ‘ranbarthol’ yn cyfeirio at yr ardal a gwmpesir gan y rhanbarth perthnasol a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cymru (De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru). Mae'r rhain yn gyson ar y cyfan â phartneriaethau economaidd fel Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Bargen Ddinesig De-ddwyrain Cymru), Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Bargen Twf y Gogledd), Bargen Ddinesig Bae Abertawe (De-orllewin Cymru) a Tyfu Canolbarth Cymru.

Gall partneriaid ystyried hyblygrwydd mewn siroedd ar y ffin ac ardaloedd gwledig, lle na allai cadw'n gaeth at y ffin leol adlewyrchu'r effaith o ran gwerth cymdeithasol yn llawn. Gall partneriaid ddefnyddio eu disgresiwn i addasu meincnodau, ar yr amod eu bod yn trafod hyn ac yn dod i gytundeb â Thîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu

Cynaliadwy, ar gamau cynnar y prosiect.

Gall hyblygrwydd fod yn briodol hefyd mewn rhanbarthau trawsffiniol (fel y rhai sy'n rhan o Gynghrair Mersi a'r Dyfrdwy) lle gall partneriaethau strategol gefnogi canlyniadau economaidd rhanbarthol ehangach. Lle bo hynny'n berthnasol, gall ALlau a SABau ystyried y partneriaethau hyn wrth bennu'r effaith leol, a hynny, unwaith eto, mewn ymgynghoriad â thîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Mewn achosion lle bo'r prosiect yn rhychwantu ffin mwy nag un awdurdod lleol, dylai'r meincnod ar gyfer cyflogaeth 'leol' gynnwys cyflogeion y mae eu codau post cartref parhaol wedi'u lleoli yn unrhyw un o'r awdurdodau lleol perthnasol.

Er enghraifft, os bydd 60% o gyflogeion yn preswylio yn ALl A a 30% yn ALl B, y cyfanswm cyflogaeth 'lleol' fyddai 90%. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i SABau.

**Dylai unrhyw leihad mewn targedau meincnodau gael ei gydbwyso drwy gynyddu cyflawniadau mewn targedau eraill. Dylid trafod hyn hefyd â thîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i sicrhau bod y newidiadau'n briodol** (Gweler Addasu Targedau i gael rhagor o wybodaeth).

### Gweithlu Cymraeg

Mae nifer o ffactorau yn debygol o ddylanwadu ar y ffordd y bydd unigolion yn asesu eu sgiliau Cymraeg eu hunain. Gall 'siaradwr Cymraeg' amrywio o rywun sydd â sgiliau sgwrsio sylfaenol i rywun sy'n gwbl hyfedr yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Mae'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR) ar gyfer ieithoedd yn categoreiddio siaradwyr yn dair lefel:

- sylfaenol (A1-A2)
- annibynnol (B1-B2)
- hyfedr (C1-C2)

I adrodd ar ganran y cyfanswm a gyflogir sy'n siarad Cymraeg, mae angen lefel A2 o leiaf. Mae A2 yn golygu'r gallu i ddeall ymadroddion cyffredin a chyfathrebu mewn sefyllfaoedd syml.

Gall siaradwr iaith ar lefel A2 wneud y canlynol:

- deall brawddegau ac ymadroddion cyffredin (er enghraifft, gwybodaeth bersonol a theuluol syml iawn, siopa, daearyddiaeth leol, cyflogaeth)
- cyfathrebu fel rhan o dasgau syml a chyffredin lle mae'n rhaid cyfnewid gwybodaeth yn uniongyrchol ac yn syml am faterion cyfarwydd a chyffredin;
- disgrifio'n syml agweddau ar eu cefndir, eu hamgylchedd a materion sydd o bwys uniongyrchol iddynt.

**Dylai'r data hyn gael eu coladu unwaith, yn ystod y cyfnod sefydlu ar gyfer y safle.**

### Newydd-ddyfodiad

Gallai newydd-ddyfodiad fod yn unigolyn sy'n perthyn i unrhyw un o'r pedwar categori canlynol:

- Gadael sefydliad addysgol neu ddarparwr hyfforddiant, gan gynnwys y rhai sy'n cwblhau addysg orfodol drwy addysgu gartref neu lwybrau anhraddodiadol eraill.
- Person nad yw'n cael ei gyflogi (wedi'i gofrestru â chanolfan waith), rhywun sy'n gadael yr ysgol neu'r coleg, neu oedolyn sydd heb gael ei gyflogi yn y diwydiant adeiladu.
- Hyfforddeion eraill - Y rhai nad ydynt yn brentisiaid ond sydd wedi cael contract cyflogaeth. Gallai hyn gynnwys unigolyn graddedig sy'n cymryd blwyddyn allan.
- Prentis – Prentis sydd wedi'i gofrestru â chorff a gydnabyddir gan y diwydiant, mae hyn yn cynnwys prentisiaid sy'n parhau.

#### Wythnosau person

Mae hwn yn fesur cronnol a bwriedir iddo hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy. Er enghraifft, gallai targed o 52 wythnos fesul £1m gael ei gyrraedd gan un person a gyflogir am 52 wythnos, 2 berson a gyflogir am 26 wythnos yr un, neu unrhyw gyfuniad sy'n adio i 52 wythnos o gyflogaeth ystyrlon.

#### Swyddi a grëwyd

Mae'r metrig hwn yn cynnwys nifer y bobl unigol sydd wedi cael eu cyflogi fel rhan o'r prosiect (mae hyn yn cynnwys y gadwyn gyflenwi gyfan). Mae'n gysylltiedig â'r mesur cyflogaeth gronnol ond mae'n canolbwyntio'n benodol ar gyfrif pennau yn hytrach na'r amser a weithiwyd. Er enghraifft, os cafodd dau unigolyn eu cyflogi am 26 wythnos yr un, byddai hyn yn cyfrif fel 2 swydd a grëwyd o dan y metrig hwn, a 52 wythnos o gyflogaeth o dan y mesur Wythnosau Person. Mae'r gwahaniaeth hwn yn helpu i fonitro dyfnder (hyd) a lled (nifer y bobl) yr effaith ar gyflogaeth.

Lle y bo'n bosibl, dylai contractwyr flaenoriaethu rolau tymor hwy sy'n cyfrannu at sefydlogrwydd y gweithlu, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau neu wneud cynnydd, a chydnerthedd economaidd lleol. Dylid osgoi rolau byrdymor neu ddarniog lle bo hynny'n bosibl, a dylai nifer y swyddi a gofnodir adlewyrchu cyfleoedd cyflogaeth gwirioneddol.

## Dysgu a Datblygu

| **DPA 3: Sgiliau, Hyfforddiant ac Ymgysylltu â Dysgwyr** |
|---|

| Maes Targed | Dangosydd Is-gategori | Metrig | Meincnod | Amlder Adrodd | Tystiolaeth sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gyrfaoedd Cynnar** | Cyflogaeth i Raddedigion Newydd | Cyfanswm nifer y Graddedigion Prifysgol newydd a gyflogir | Casglu Data | Adroddiad Cau Blynyddol (Ch4) | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Cyflogaeth sy'n Parhau i Raddedigion | Cyfanswm nifer y Graddedigion Prifysgol sy'n parhau â'u cyflogaeth | | Adroddiad Cau Blynyddol (Ch4) | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Prentisiaethau Newydd | Cyfanswm nifer y Prentisiaethau Newydd ar y prosiect | Meincnod cyfunol o 1 fesul £1m | Adroddiad Cau Blynyddol (Ch4) | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Prentisiaethau sy'n Parhau | Cyfanswm nifer y Prentisiaethau sy'n Parhau ar y prosiect | | Adroddiad Cau Blynyddol (Ch4) | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| Datblygu Sgiliau | Lleoliadau Gwaith (mewn addysg) | Nifer y Lleoliadau | Meincnod cyfunol 1 fesul £3m | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Lleoliadau Gwaith (ddim mewn addysg) | Nifer y Lleoliadau | | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Hyfforddiant arall | Nifer yr Wythnosau o Hyfforddiant | Casglu Data | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |

| DPA 3: Sgiliau, Hyfforddiant ac Ymgysylltu â Dysgwyr |
|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi Addysg STEM | Oriau a roddwyd (STEM) | Oriau i weithgareddau addysgol STEM | 8 fesul £1m | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Dyddiad, Amser, Lleoliad |
| | Rhyngweithio â Dysgwyr (STEM) | Nifer y Rhyngweithiadau â Dysgwyr (1 Dysgwr = 1 Rhyngweithiad) | 120 fesul £1m | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Dyddiad, Amser, Lleoliad |
| Ymgysylltu â Dysgwyr | Cymorth i Ymuno â Byd Gwaith (14+) | Oriau | 2 fesul £1m | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Dyddiad, Amser, Lleoliad |

## Gwybodaeth Ategol

### Lleoliadau/Profiad Gwaith

Mae'r metrig hwn yn cynnwys nifer y lleoliadau/profiad gwaith a gaiff eu hwyluso drwy weithgarwch y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Dylid canolbwyntio ar leoliadau sy'n cynnig profiad ystyrlon sy'n cyd-fynd â diddordebau'r dysgwyr ac amcanion y prosiect.

Dylai lleoliad gwaith o ansawdd da ddarparu profiad pwrpasol a strwythuredig sy'n meithrin sgiliau perthnasol, hyder a dealltwriaeth o lwybrau gyrfa. I'r rhai nad ydynt mewn addysg, gall y lleoliad weithio fel adnodd ailymgysylltu a phontio'r bwlch i gyfleoedd dysgu a chyflogaeth eraill.

Mae meincnod cyfunol o 1 fesul £3m wedi cael ei bennu ar gyfer y rhai mewn addysg a'r rhai nad ydynt mewn addysg i lywio disgwyliadau. Fodd bynnag, gall ALlau a SABau partner bennu targedau mwy uchelgeisiol ar sail y cyd-destun lleol, capasiti a blaenoriaethau strategol (Gweler Addasu Targedau i gael rhagor o wybodaeth).

## Gyrfaoedd Cynnar

Mae gan bob categori sydd wedi ei gynnwys o dan Gyrfaoedd Cynnar feini prawf penodol, gweler tabl 1 isod. Er bod y meincnod yn cyfuno presntisiaethau newydd a phrentisiaethau sy'n parhau fel 1 fesul £1 filiwn o gost y prosiect, dylai prosiectau adrodd arnynt ar wahân i sicrhau tryloywder. Dylai partneriaid adrodd ar nifer y graddedigion newydd a nifer y graddedigion sy'n parhau ar wahân hefyd.

<table>
<tr><td>Cyflogaeth i Raddedigion Newydd</td><td>Graddedigion prifysgol sy'n ymuno â'r gweithlu am y tro cyntaf neu'n trosglwyddo i rôl broffesiynol berthnasol. Rhaid i'r rolau hyn fodloni'r amodau canlynol:<ul><li>Cynnig datblygiad strwythuredig, cymorth mentora neu gyfleoedd i ddatblygu.</li><li>Wedi cael eu creu neu eu llenwi o'r newydd o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect.</li><li>Para am hyd y prosiect o leiaf a dangos cyfraniad at y prosiect.</li><li>Wedi graddio yn ystod y 3 blynedd diwethaf.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cyflogaeth sy'n Parhau i Raddedigion</td><td>Graddedigion prifysgol a oedd wedi cael eu cyflogi eisoes cyn y prosiect ac sy'n parhau â'u cyflogaeth fel rhan o'r prosiect. Rhaid i'r rolau hyn fodloni'r amodau canlynol:<ul><li>Cynnig datblygiad strwythuredig, cymorth mentora neu gyfleoedd i ddatblygu.</li><li>Para am hyd y prosiect o leiaf a dangos cyfraniad at y prosiect.</li><li>Wedi graddio yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Prentisiaethau Newydd</td><td>Prentisiaid newydd a gaiff eu recriwtio i'r gweithlu. Rhaid iddynt fodloni'r amodau canlynol:<ul><li>Bod yn brentisiaethau ffurfiol sydd wedi'u cofrestru â darparwr hyfforddiant cydnabyddedig.</li><li>Bod yn gyson â safonau'r diwydiant ac arwain at gymhwyster.</li><li>Cael eu cefnogi gan gynllun hyfforddi strwythuredig ac ymrwymiad y cyflogwr.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Prentisiaethau sy'n Parhau</td><td>Prentisiaid presennol sy'n parhau â'u hyfforddiant fel prentisiaid wrth weithio ar y prosiect. Rhaid i’r lleoliadau fodloni'r amodau canlynol:<ul><li>Bod yn rhan o raglen brentisiaeth gydnabyddedig.</li><li>Cyfrannu'n ystyrlon at ddatblygu'r prentis a chyflawni'r prosiect.</li></ul></td></tr>
</table>

**Tabl 1: Meini Prawf Gyrfaoedd Cynnar**

## Pob Hyfforddiant Arall

Mae'r metrig hwn yn cynnwys Wythnosau o Hyfforddiant ar gyfer yr holl gymwysterau hyfforddi perthnasol eraill nad ydynt yn Brentisiaethau, Graddedigion nac yn Lleoliadau Gwaith

Mewn canllawiau blaenorol, nodwyd meincnod o 25 wythnos fesul £1m ar gyfer hyn, ond gan fod Graddedigion a Lleoliadau Gwaith wedi cael eu gwahanu, dim ond data ar bob math arall o hyfforddiant sy'n cael eu casglu o dan y metrig hwn.

## Oriau a Roddwyd a Rhyngweithiadau â Dysgwyr (STEM)

Mae'r metrigau hyn yn cynnwys gweithgareddau STEM addysgol a gynhelir ar gyfer dysgwyr. Bwriedir iddynt adlewyrchu gwerth addysgol a chyrhaeddiad gweithgareddau ymgysylltu STEM, yn hytrach nag arweiniad ar yrfaoedd neu gymorth o ran cyflogadwyedd (a gofnodir ar wahân o dan 'Cymorth i Ymuno â Byd Gwaith'). Rhaid i'r gweithgareddau hyn fod yn addysgol a chanolbwyntio ar STEM, a rhaid eu cynnal mewn lleoliad addysgol. Mae hyn yn cynnwys sesiynau sy'n archwilio pynciau fel peirianneg, adeiladu, cynaliadwyedd, technolegau digidol, neu egwyddorion gwyddonol. Dylai gweithgareddau geisio ysbrydoli a hysbysu dysgwyr am bynciau STEM.

### Sut i gofnodi?

- **Oriau a Roddwyd** - Cyfanswm nifer yr oriau a dreulir yn cyflwyno cynnwys neu weithgareddau STEM i ddysgwyr.
- **Rhyngweithiadau â Dysgwyr STEM** - Cyfanswm nifer y dysgwyr unigol sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gweithgaredd STEM.

Er enghraifft, byddai sesiwn awr o hyd a gyflwynir gan un aelod o'r tîm i 55 o ddysgwyr yn cael ei chofnodi fel 1 awr a roddwyd a 55 o ryngweithiadau â dysgwyr. Os bydd sawl aelod o'r tîm yn cymryd rhan, bydd amser pob person yn cyfrif tuag at gyfanswm yr oriau a roddwyd.

**Nid yw'r metrig hwn yn gymwys i brosiectau sydd â darpariaeth Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn unig.**

## Cymorth i Ymuno â Byd Gwaith

Mae'r metrig hwn yn cynnwys gweithgareddau sy'n cefnogi unigolion, yn enwedig dysgwyr, i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen i ymuno â byd gwaith neu symud ymlaen ym myd gwaith. Dylai gynnwys mentrau ymarferol sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth fel gweithdai llunio CV, sesiynau paratoi ar gyfer cyfweliadau, ffug gyfweliadau, sgyrsiau am yrfaoedd, presenoldeb mewn ffeiriau gyrfaoedd, cymorth mentora neu hyfforddi, a lleoliadau profiad gwaith. Gallai'r gweithgareddau hyn gael eu cynnal mewn ysgolion, colegau, neu leoliadau cymunedol a bwriedir iddynt gynyddu parodrwydd ar gyfer swyddi a dealltwriaeth o'r gweithle.

**Nid yw'r metrig hwn yn gymwys i brosiectau sydd â darpariaeth Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yn unig.**

## Mentrau Cymunedol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**DPA 4: Ymgysylltu a Chynnwys MSME, VCSE**

| Maes Targed | Dangosydd Is-gategori | Metrig | Meincnod | Amlder Adrodd | Tystiolaeth sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| GwerthwchiGymru | Defnydd a wneir o GwerthwchiGymru i hysbysebu cyfleoedd | Defnyddio platfform GwerthwchiGymru i hysbysebu cyfleoedd. | Pob cyfle contract | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Archwiliad |
| Ymgysylltu | Ymgysylltu â microfusnesau, busnesau bach a busnesau canolig (MSME) a mentrau cymdeithasol, cymunedol a gwirfoddol (VCSE) | Nifer yr ymgysylltiadau | 2 | Ch2 a Ch4 Adroddiad Cau | Dyddiad, Amser, Lleoliad |
| | MSMEs a VCSEs sy'n cael eu contractio ar y prosiect | Nifer yr MSMEs a VCSEs sy'n cael eu contractio ar y prosiect (a ddefnyddiwyd yn flaenorol) | Casglu Data | Ch2 a Ch4 Adroddiad Cau | Gwybodaeth am y Cwmnïau |
| | MSMEs a VCSEs newydd sy'n cael eu contractio ar y prosiect | Nifer yr MSMEs neu VCSEs newydd sy'n cael eu contractio ar y prosiect (newydd i'r prif gontractwr) | Casglu Data | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Gwybodaeth am y Cwmnïau |

**DPA 5: Ymgysylltu â'r Gymuned a Chyfranogiad Cymunedol**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â'r gymuned | Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu â'r Gymuned | Nifer y dulliau cyfathrebu | 3 | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Dyddiad, Math |
| | Mentrau Cymunedol | Nifer y Mentrau Cymunedol | <£10m = 1<br>>£10m = 2 | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Dyddiad, Amser, Lleoliad, £ (lle y bo'n gymwys) |

## Gwybodaeth Ategol

Mae'r adran hon yn ymwneud ag ymgysylltu a chynnwys MSMEs a VCSEs ac MSMEs a VCSEs dilynol sy'n cael eu contractio i weithio ar y prosiect.

### GwerthwchiGymru

Dylai prif gontractwyr gael eu penodi drwy Fframwaith Caffael Rhanbarthol (SEWSCAP, SWWRCF neu NWCP). I gael rhagor o wybodaeth, gweler Canllawiau Achos Busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Disgwylir i Brif Gontractwyr sy'n cyflawni contractau cyhoeddus gyhoeddi cyfleoedd isgontractio ar GwerthwchiGymru drwy gydol oes y prosiect. Mae hyn yn sicrhau tryloywder, hygyrchedd, a thegwch i gyflenwyr sy'n awyddus i ymgysylltu â gwaith yn y sector cyhoeddus.

Rhaid defnyddio GwerthwchiGymru ar gyfer pob cyfle contract sy'n rhan o'r prosiect. Mae'r math o hysbysiad sydd ei angen yn dibynnu ar werth amcangyfrifedig y prosiect (gan gynnwys TAW):

- £0 – £30,000: Dyfynbris Cyflym
- Uwchlaw £30,000:Hysbysiad Safle

Bydd hyfforddiant a chymorth ar gael i bartneriaid cyflawni i sicrhau bod GwerthwchiGymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a'u bod yn achub yn llawn ar bob cyfle i hyrwyddo gweithgarwch caffael drwy'r platfform.

### Ymgysylltu â MSMEs a VCSEs

Dylai contractwyr fynd ati i ymgysylltu â Microfusnesau, Busnesau Bach a Busnesau Canolig (MSMEs) a Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol (VCSEs) drwy ryngweithiadau ystyrlon a rhagweithiol er mwyn ceisio eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a chyflawni prosiectau yn y sector cyhoeddus a rhannu eu buddion. Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, dylid gwneud ymdrech wirioneddol i gynnwys MSMEs a VCSEs mewn prosesau caffael, gwaith cyflawni prosiectau neu weithgareddau budd i'r gymuned. Mae enghreifftiau yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

**Sesiynau briffio neu weithdai i gyflenwyr** Cynnig sesiynau wedi'u targedu i helpu MSMEs neu VCSEs i ddeall cwmpas y gwaith, y broses gwneud cais, a sut i ddefnyddio platfformau fel GwerthwchiGymru.

**Digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr**: Hwyluso rhyngweithio uniongyrchol rhwng MSMEs neu VCSEs a phrif gontractwyr neu brynwyr yn y sector cyhoeddus i archwilio cyfleoedd isgontractio neu bartneriaeth.

**Ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu:** Anfon gohebiaeth wedi'i theilwra at MSMEs neu VCSEs lleol neu sector-benodol i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a'u hannog i gymryd rhan.

Caiff contractwyr eu hannog i gysylltu â Busnes Cymru i ofyn am gymorth i gyflawni eu mentrau. Gall Busnes Cymru roi mynediad i rwydweithiau o MSMEs a VCSEs a

helpu i hyrwyddo cyfleoedd i ystod ehangach o MSMEs a VCSEs yng Nghymru. Gall y cymorth hwn wella ansawdd a chyrhaeddiad ymdrechion ymgysylltu.

Dylai gwaith ymgysylltu da â MSMEs a VCSEs fod yn gynhwysol, gan gynnwys ystod amrywiol o MSMEs a VCSEs, dylai fod yn hygyrch gan ddefnyddio iaith syml heb jargon, dylai fod yn ddigon amserol i ddylanwadu ar ganlyniadau a dylid ei ddogfennu'n dda i gefnogi tryloywder.

Rhaid darparu tystiolaeth o bob menter a dylai contractwyr roi adborth i'r ALI os na wnaethant ddefnyddio MSME neu VCSE. Bydd hyn yn galluogi timau perthnasol (cymorth busnes, gwelliant economaidd) yn yr ALI i helpu'r MSMEs neu'r VCSEs wella eu sefyllfa ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

### MSMEs a VCSEs sy'n cael eu contractio ar y prosiect

Mae'r broses o ymgysylltu â MSMEs a VCSEs drwy ryngweithiadau ystyrlon yn seiliedig ar allu dangos llwyddiant ymgysylltiadau. Dylai partneriaid cyflawni gadw cofnod o nifer yr MSMEs a VCSEs sy'n cael eu contractio ar y prosiect a faint o'r rhain sy'n newydd i'r prif gontractwr.

### Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu â'r Gymuned

Mae'r metrig hwn yn amlinellu sut y bydd partneriaid prosiect, gan gynnwys partneriaid cyflawni a chontractwyr, yn rhoi gwybodaeth i gymunedau lleol, yn eu cynnwys ac yn cydweithio â nhw drwy gydol oes y prosiect. Mae'n cydnabod efallai na fydd dulliau traddodiadol fel cylchlythyrau yn effeithiol i bob cynulleidfa ac yn annog dull hyblyg a chynhwysol sydd wedi'i deilwra i anghenion a dewisiadau lleol. Dylai partneriaid ddatblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu â'r Gymuned sy'n cynnwys cymysgedd o ddulliau digidol ac annigidol er mwyn sicrhau hygyrchedd a pherthnasedd. Rhaid bod pob dull cyfathrebu ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg ac er mwyn sicrhau bod pob cymuned yn cael ei chynnwys. Gallai'r cynllun hwn gynnwys:

- Cylchlythyrau (digidol neu wedi'u hargraffu, lle y bo'n briodol)
- Datganiad i'r cyfryngau lleol a rhanbarthol
- Diweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol
- Deunyddiau cyfathrebu ALI a SABau, gan gynnwys bwletinau mewnol neu sianeli allgymorth cymunedol.

Argymhellir y dylid cyfathrebu â'r gymuned o leiaf unwaith cyn y gwaith adeiladu, unwaith yn ystod y gwaith adeiladu ac unwaith ar ôl iddo gael ei gwblhau. Gall yr ALI a'r SAB gynyddu'r gofyniad hwn yn ôl eu disgresiwn. (Gweler Addasu Targedau i gael rhagor o wybodaeth)

### Mentrau Cymunedol

Mentrau cymunedol yw gweithgareddau penodol sy'n cynnig gwerth ychwanegol i gymunedau lleol, ar wahân i feincnodau craidd o ran cyflogaeth, sgiliau neu'r economi sydd eisoes yn cael eu mesur fel rhan o faes arall. Dylai'r mentrau hyn gael eu cynllunio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys Timau Cymunedol yr ALl, er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol, yn effeithiol, ac yn gyson â blaenoriaethau a heriau lleol.

Rhaid i brosiectau o dan £10m gyflawni o leiaf un fenter gymunedol, sy'n gymesur â gwerth y prosiect (dylai'r partneriaid cyflawni benderfynu ar hyn), ac mae'n rhaid i brosiectau dros £10m gyflawni o leiaf ddwy fenter gymunedol. Ar gyfer prosiectau mwy neu brosiectau sy'n para am gyfnod hwy, efallai y bydd disgwyl iddynt gyflawni mwy o fentrau yn ôl disgresiwn yr ALl neu'r SAB. (Gweler Addasu Targedau i gael rhagor o wybodaeth)

Rhaid i fentrau gyflawni canlyniadau pendant i'r gymuned. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Rhoi nwyddau i fanciau bwyd lleol
- Trefnu digwyddiadau casglu sbwriel neu dacluso'r amgylchedd neu gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath
- Gwelliannau i gyfleusterau cymunedol neu leoedd a rennir
- Amser gwirfoddoli neu adnoddau i elusennau lleol neu grwpiau cymunedol
- Trefnu digwyddiadau cerddoriaeth neu chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda chymorth sefydliadau fel Urdd Gobaith Cymru neu'r Mentrau Iaith o bosibl

### Y Gadwyn Gyflenwi yng Nghymru

**DPA 6: Ôl-troed Economaidd Cymru**

| Maes Targed | Dangosydd Is-gategori | Metrig | Meincnod | Amlder Adrodd | Tystiolaeth sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth am y Cwmnïau | Cyfeiriad y Brif Swyddfa | Cyfeiriad llawn Prif Swyddfa pob cyflenwr | Casglu Data | Adroddiad Cau | Ddim yn berthnasol |
| | Cyfeiriad Is-swyddfa (rhanbarthol) (lle bo hynny'n gymwys) | Cyfeiriad llawn is-swyddfa pob cyflenwr | Casglu Data | Adroddiad Cau | Ddim yn berthnasol |

| DPA 6: Ôl-troed Economaidd Cymru |
|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth am y Cwmnïau | A yw'r cyflenwr yn gwmni o dan berchnogaeth Gymreig? | Ydy/Nac ydy ar gyfer pob cyflenwr | Casglu Data | Adroddiad Cau | Ddim yn berthnasol |
| Gwariant yng Nghymru | % Gwariant yng Nghymru | % o gyfanswm y gwariant ar gyflenwyr o Gymru | Casglu Data | Blynyddol (Ch4) | Ddim yn berthnasol |
| | % Is-gontractwyr o Gymru | % yr is-gontractwyr â chod post yng Nghymru | Casglu Data | Blynyddol (Ch4) | Ddim yn berthnasol |

| DPA 7: Deunyddiau o Gymru |
|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau | Math o ddeunyddiau a gynhyrchir yng Nghymru | Rhestr o ddeunyddiau | Casglu Data | Blynyddol (Ch4) | Ddim yn berthnasol |
| | Gwerth deunyddiau a gynhyrchir yng Nghymru | £ fesul tunnell (dur), £ fesul metr sgwâr (llechi) | Casglu Data | Blynyddol (Ch4) | Ddim yn berthnasol |
| | Cyfaint y deunyddiau a gynhyrchir yng Nghymru | Tunelledd (Dur), nifer y metrau sgwâr (llechi) | Casglu Data | Blynyddol (Ch4) | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth Ategol

### Lleoliad a pherchnogaeth cyflenwyr

Mae'r dangosyddion hyn yn helpu i asesu dosbarthiad daearyddol ac ôl-troed economaidd pob cyflenwr sy'n helpu i gyflawni prosiect o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Caiff yr wybodaeth hon ei choladu yn yr Adroddiad Cau. Dylai partneriaid weithio gyda chontractwyr i ddarparu manylion y prif gontractwr ac unrhyw is-gontractwyr a benodir.

Drwy gasglu'r data hyn, gellir dangos ble y caiff gwerth ei gadw a'i ailfuddsoddi. Er enghraifft, os bydd cyfranddalwyr wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, gallai'r elw gael ei wario rhywle arall, sy'n lleihau'r effaith lluosydd economaidd lleol. Drwy fapio cyfeiriadau cyflenwyr, strwythurau perchnogaeth a gwariant, gall y rhaglen werthuso

ei heffeithiolrwydd wrth gefnogi busnesau a chymunedau yng Nghymru a nodi cyfleoedd i gryfhau cydnerthedd economaidd lleol.

### Deunyddiau o Gymru

**Nifer a math o ddeunyddiau -** Rhaid i bartneriaid adrodd ar bob deunydd gwahanol a gyflenwir gan weithgynhyrchwyr neu gyflenwyr yng Nghymru. Dim ond os caiff deunyddiau eu cynhyrchu neu eu prosesu i raddau helaeth yng Nghymru y dylid eu cyfrif, nid eu dosbarthu o leoliad yng Nghymru yn unig. Dylid adrodd ar gyflenwyr Haen 1 a Haen 2 lle bo gwybodaeth ar gael.

**Gwerth y deunyddiau a gynhyrchir yng Nghymru -** Yn seiliedig ar y rhestr partneriaid deunyddiau uchod, rhaid i bartneriaid adrodd ar werth ariannol pob un o'r deunyddiau a gynhyrchir yng Nghymru a ddefnyddir yn y prosiect. Dylid defnyddio unedau safonol fel £ fesul tunnell (e.e. dur) a £ fesul metr sgwâr (e.e. llechi).

**Cyfaint y deunyddiau a gynhyrchir yng Nghymru -** Rhaid i bartneriaid adrodd hefyd ar faint o ddeunyddiau a gynhyrchir yng Nghymru y rhestrwyd eu bod yn cael eu defnyddio yn y prosiect. Dylid defnyddio unedau priodol fel tunelledd ar gyfer swmpddeunyddiau (e.e. dur) a metrau sgwâr ar gyfer deunyddiau arwyneb (e.e. llechi).

### Talu Teg

**DPA 8: Arferion Talu Moesegol ac Amserol**

| Maes Targed | Dangosydd Is-gategori | Metrig | Meincnod | Amlder Adrodd | Tystiolaeth sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| Amserol | Taliadau'n cael eu gwneud o fewn 10 diwrnod gan y cleient | Archwiliad – Canran y taliadau | 100% o daliadau | Ch2 a Ch4 Adroddiad Cau | Archwiliad |
| | Taliadau i is-gontractwyr yn cael eu gwneud o fewn 27 diwrnod | Archwiliad – Canran y taliadau | 100% o daliadau | Ch2 a Ch4 Adroddiad Cau | Archwiliad |
| Cyfrif Banc Prosiectau | Defnyddio Cyfrif Banc Prosiectau | Cadarnhad | Prosiectau dros £2m | Dechrau'r Prosiect a Diwedd y Prosiect | Cadarnhad ffurfiol bod Cyfrif Banc Prosiectau wedi cael ei greu (e.e. cytundeb wedi ei lofnodi). |

## Gwybodaeth Ategol

### Amserol

Mae'r meincnod ar gyfer y metrigau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i 100% o daliadau gael eu gwneud o fewn 10 diwrnod gan y cleient (ALI neu SAB) i gontractwr, ac o fewn 27 diwrnod gan gontractwr i is-gontractwr. Dylid defnyddio'r meincnod hwn fel gofyniad sylfaenol ond os bydd telerau'r contract yn fyrrach, dylech gydymffurfio â'r telerau hynny.

### Cyfrif Banc Prosiectau

Ym mis Chwefror 2025, cafodd Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) 010 ei gyflwyno i hyrwyddo'r defnydd o Gyfrifon Banc Prosiectau fel ffordd o fynd i'r afael ag arferion talu gwael yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus drwy hwyluso taliadau teg a phrydlon. [iii] . Cyfrifon banc wedi'u clustnodi yw Cyfrifon Banc Prosiectau ac fe'u dyluniwyd i sicrhau bod busnesau adeiladu sy'n rhan o gadwyni cyflenwi ar gyfer cynlluniau yn y sector cyhoeddus yn cael taliadau ymhen 5 diwrnod neu lai.

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi cyflwyno metrig newydd o dan y thema Talu Teg mewn perthynas â Chyfrifon Banc Prosiectau, sy'n golygu bod yn rhaid eu defnyddio nawr fel amod cyllido ar gyfer prosiectau â chyfanswm gwerth contract o £2 miliwn neu fwy, lle bo hynny'n berthnasol o dan y meini prawf.

Bydd yn ofynnol i bartneriaid gadarnhau bod ganddynt Gyfrif Banc Prosiectau ar ddechrau'r prosiect a chaiff gwiriad terfynol ei gynnal ar ddiwedd y prosiect. Mae canllawiau ar ddefnyddio Polisi Cyfrifon Banc Prosiectau Llywodraeth Cymru wedi cael eu rhyddhau o dan WPPN 04/21, sydd ar gael yma.

Ceir rhagor o wybodaeth am berthnasedd Cyfrifon Banc Prosiectau yma.

## 5. Metrigau Gwerth Cymdeithasol sy'n Seiliedig ar Le

Er mwyn sicrhau bod prosiectau o fewn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cyflawni canlyniadau sy'n cael yr effaith leol fwyaf, rydym yn cyflwyno dull wedi'i dargedu sy'n seiliedig ar leoedd. Mae Metrigau Gwerth Cymdeithasol sy'n Seiliedig ar Le wedi cael eu sefydlu i nodi a dangos sut mae prosiectau yn cyflawni buddion ystyrlon i gymuned y prosiect yn ychwanegol at yr hyn sy'n ofynnol.

Dylai partneriaid drin y metrigau fel 'dewislen' o opsiynau, gan ddewis y meysydd targed a'r dangosyddion mwyaf perthnasol yn seiliedig ar anghenion penodol y gymuned leol. Er enghraifft, os bydd ALI yn adeiladu ysgol pob oed mewn ardal lle ceir lefelau uchel o bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), caiff ei annog i ddewis a chyflawni metrigau sy'n mynd i'r afael â'r her hon.

Mae isafswm nifer y metrigau y mae'n rhaid i brosiect eu targedu yn seiliedig ar gost y prosiect.

- Prosiectau gwerth rhwng £2m a £15m – o leiaf 2 fetrig
- Prosiectau gwerth rhwng £15m a £50m – o leiaf 4 metrig
- Prosiectau gwerth dros £50m – o leiaf 6 metrig

Fodd bynnag, anogir partneriaid i ddewis pob metrig sy'n briodol, yn gyraeddadwy ac yn gallu cael effaith gadarnhaol neu fynd i'r afael â heriau yn y gymuned lle lleolir y prosiect.

Nid oes meincnodau wedi cael eu pennu oherwydd pennwyd bod cyflawni unrhyw beth o'r rhestr isod yn ychwanegol at y gofynion. Ar ddechrau'r prosiect, rhaid i bartneriaid bennu targed ar gyfer y metrigau y maent yn eu dewis o'r ddewislen isod.

### Gweithlu

**DPA 2: Datblygu'r Gweithlu a Chynhwysiant**

| Maes Targed | Dangosydd Is-gategori | Metrigau | Amlder Adrodd | Tystiolaeth sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|
| Cyfleoedd i bobl dan anfantais | Pobl ddi-waith hirdymor (di-waith am flwyddyn neu fwy) | Nifer y cyflogeion (CALI) a gaiff eu cyflogi neu eu cadw | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Pobl ddigartref a di-waith hirdymor (di-waith am flwyddyn neu fwy) | Nifer y cyflogeion (CALI) a gaiff eu cyflogi neu eu cadw | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Cyflogaeth hygyrch i bobl anabl | Nifer y cyflogeion (CALI) a gaiff eu cyflogi neu eu cadw | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |

| DPA 2: Datblygu'r Gweithlu a Chynhwysiant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfleoedd i bobl dan anfantais | NAD ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) | Nifer y cyflogeion (CALI) a gaiff eu cyflogi neu eu cadw | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Unigolion 18+ oed a gaiff eu cyflogi ar gontract sy'n adsefydlu neu'n gyn-droseddwyr | Nifer y cyflogeion (CALI) a gaiff eu cyflogi neu eu cadw | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| | Aelodau o grŵp ethnig lleiafrifol | % y cyflogeion (CALI) | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr ddienw, wedi'i llofnodi gan arweinydd y prosiect |
| Cydraddoldeb a Llesiant Cyflogeion | Mynediad at Raglenni Llesiant | Cyfanswm y cyflogeion â mynediad am o leiaf 6 mis | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Ddim yn berthnasol |
| | Cydraddoldeb Rhywedd a Chyflogau Teg yn y Gweithle | Nifer y mentrau | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth Ategol

### Cyfleoedd i bobl dan anfantais -

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn ymrwymedig i gyflawni canlyniadau cynhwysol a theg i bob cymuned yng Nghymru. Agwedd allweddol ar yr ymrwymiad hwn yw sicrhau bod unigolion dan anfantais yn cael eu cefnogi i ganfod cyflogaeth ystyrlon drwy ymyriadau gwerth cymdeithasol wedi'u targedu.

Mae arfer da o ran sicrhau gwerth cymdeithasol yn cynnwys arferion recriwtio cynhwysol, allgymorth wedi'i dargedu, a phartneriaethau â sefydliadau arbenigol. Dylai'r ymdrechion hyn gael eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio a chyflawni prosiectau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd a gaiff eu creu gan fuddsoddiadau'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cyrraedd y rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gyflogaeth. Mae'r Rhaglen yn annog prosiectau i greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i unigolion o'r grwpiau blaenoriaeth canlynol:

**Pobl ddi-waith hirdymor (di-waith am 12 mis neu fwy) -** Gall diweithdra hirdymor arwain at golli hyder, sgiliau, a llai o ddiddordeb gan gyflogwyr. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024, y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru oedd 73.2%, ychydig

yn is na chyfartaledd y DU, sef 75.4%. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu carreg filltir genedlaethol i ddileu'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu cyfranogiad ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.[iv]

**Unigolion digartref** - Mae digartrefedd yn rhwystr mawr i gyflogaeth o ganlyniad i ansefydlogrwydd, y ffaith nad oes gan unigolion gyfeiriad, a mynediad cyfyngedig at wasanaethau. Yn 2024, roedd tua 12,250 o aelwydydd yng Nghymru wedi profi digartrefedd “craidd”, gan gynnwys cysgu allan, cysgu ar soffa, a llety dros dro anaddas.

**Pobl anabl** - Mae unigolion anabl yng Nghymru yn wynebu'r bwlch cyflogaeth mwyaf o ran anabledd ym Mhrydain. Yn 2024, y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru ar gyfer pobl anabl 16–64 oed oedd 51.0%, o gymharu ag 81.9% ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl, sef bwlch o 30.9 pwynt canran rhwng cyfraddau cyflogaeth pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio dileu'r bwlch hwn erbyn 2035, gan gydnabod yr angen am ymgysylltu rhagweithiol gan gyflogwyr ac arferion recriwtio cynhwysol.

**Pobl ifanc NEET (Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) -** Mae categori NEET yn cynnwys pobl ifanc 16–24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ffurfiol. Mae'r grŵp hwn yn ffocws allweddol ar gyfer ymyriadau gwerth cymdeithasol o ganlyniad i'r risgiau hirdymor o allgáu economaidd a chymdeithasol. Yn ôl datganiad ystadegol 2025 Llywodraeth Cymru, gwyddys bod tua 2.4% o bobl ifanc a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 yn 2024 yn NEET[v]. Mae adroddiad Medr ar ddilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol yn rhoi mwy o wybodaeth am y llwybrau y mae pobl ifanc yn eu dilyn ac yn tynnu sylw at gymorth wedi'i dargedu i'r rhai sy'n wynebu risg o fod yn NEET[vi].

**Cyn-droseddwyr neu unigolion sy'n adsefydlu (18+ oed) -** Mae cyn-droseddwyr yn aml yn wynebu stigma a mynediad cyfyngedig at gyfleoedd cyflogaeth. Yng Nghymru, roedd 31.1% o droseddwyr wedi cael eu cyflogi chwe mis ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa yn 2024. Ar gyfer y rhai â dedfrydau cymunedol, roedd y gyfradd gyflogaeth yn uwch ar 46.4%. Gwelwyd gwelliant nodedig yn rhanbarth prawf Cymru, gyda 22.9% o droseddwyr yn cael eu cyflogi chwe mis ar ôl cael eu rhyddhau, o gymharu â 18.7% y flwyddyn flaenorol.

**Aelodau o grwpiau ethnig lleiafrifol -** Mae aelwydydd ethnig lleiafrifol hefyd yn wynebu tebygolrwydd o 50% o dlodi incwm cymharol. Yn 2024, y gyfradd gyflogaeth ar gyfer unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol oedd 66.2% o gymharu â 74.0% ar gyfer unigolion Gwyn.

Os caiff unrhyw rai o'r meysydd uchod eu targedu, dylai'r wybodaeth gael ei choladu unwaith, yn ystod y cyfnod sefydlu ar gyfer y safle.

### Arfer Da: ReAct +

I helpu unigolion dan anfantais i ddod o hyd i waith, caiff partneriaid cyflawni'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy eu hannog i ymgysylltu â mentrau fel ReAct+, a gyflwynir drwy Cymru'n Gweithio.

Ar gyfer yr unigolyn, mae ReAct+ yn cynnig cymorth wedi'i deilwra i'r rhai sy'n ceisio ailymuno â'r farchnad lafur drwy ddileu rhwystrau a darparu cymorth ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol, costau teithio a gofal (gan gynnwys gofal plant) sy'n gysylltiedig â hyfforddiant[vii].

Ar gyfer y cyflogwr, gallai cyflogi unigolyn sy'n cymhwyso o dan ReAct+ olygu y bydd yn cael hyd at £4,000 tuag at gyflogau'r unigolyn am flwyddyn gyntaf ei gyflogaeth. Mae nifer o feini prawf ar gyfer y swydd, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

## Cydraddoldeb a Llesiant Cyflogeion

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cydnabod bod sicrhau gwerth cymdeithasol yn cynnwys datblygu gweithleoedd iach, cynhwysol a theg. Dau faes ffocws pwysig yw mynediad at gymorth llesiant a hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd a chyflogau teg.

**Mynediad at Fentrau Llesiant i Gyflogeion:**

Mae llesiant cyflogeion yn hanfodol er mwyn cael gweithlu cynhyrchiol a chynaliadwy. Gall rhaglenni llesiant leihau absenoldeb, gwella moral, a chefnogi iechyd meddwl a chorfforol. Gall y rhaglenni hyn gynnwys:

- Cymorth iechyd meddwl (e.e. cwnsela)
- Mentrau llesiant corfforol (e.e. aelodaeth campfa, archwiliadau iechyd)
- Hyfforddiant gwydnwch a rheoli straen.

Mae arferion da yn cynnwys sicrhau bod cymorth llesiant ar gael i bob cyflogai, gan gynnwys staff rhan amser a staff sy'n gweithio ar safleoedd, a'i fod yn cael ei gynnal dros gyfnod o amser (6 mis o leiaf) a'i fod yn gynhwysol, gan ddiwallu anghenion amrywiol (e.e. niwrowahaniaeth, cyfrifoldebau gofalu)

Dylai prosiectau'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy geisio ymwreiddio llesiant yn eu diwylliant sefydliadol a sicrhau bod pob cyflogai sy'n gweithio ar y rhaglen yn cael budd o'r cymorth hwn.

**Cydraddoldeb Rhywedd a Chyflogau Teg yn y Gweithle:**

Mae cydraddoldeb rhywedd a chyflogau teg yn hanfodol i waith teg. Gall gweithgareddau i annog yr egwyddorion hyn gynnwys:

- Cynnal archwiliadau cyflog rhywedd a chyhoeddi'r canlyniadau.
- Adolygu a diweddaru polisïau recriwtio a dyrchafu i ddileu rhagfarn
- Cynnig cymorth datblygu arweinyddiaeth i ryweddau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Darparu polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd, fel absenoldeb rhiant gwell
- Cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth neu hyfforddiant ar gynhwysiant a chydraddoldeb rhywedd

Dylai prosiectau geisio dangos y camau a gymerir i leihau gwahaniaethau seiliedig ar rywedd a hyrwyddo cyfle cyfartal ym mhob rôl ac ar bob lefel.

## Dysgu a Datblygu

| Maes Targed | Dangosydd Is-gategori | Metrigau | Amlder Adrodd | Tystiolaeth sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|
| **DPA 3: Sgiliau, Hyfforddiant a Datblygu Dysgwyr** | | | | |
| Ailsgilio neu uwchsgilio | Unigolion yn cael eu hailsgilio neu eu huwchsgilio | Nifer a Lefel y Cymwysterau | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Tystysgrif neu Lythyr/E-bost Cadarnhad |
| Hyfforddiant | Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Oriau o hyfforddiant staff fesul cyflogai | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Tystysgrif neu Lythyr/E-bost Cadarnhad |
| Addysg a Hyfforddiant ar Gefnogi Cynaliadwyedd | Sesiynau Addysg ar yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd | Oriau fesul cyflogai | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Dyddiad, Amser, Lleoliad |
| **DPA 5: Ymgysylltu â'r Gymuned a Chyfranogiad Cymunedol** | | | | |
| Addysg a Hyfforddiant ar Gefnogi Cynaliadwyedd | Gwirfoddoli ym maes Cadwraeth Amgylcheddol | Oriau fesul cyflogai | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Dyddiad, Amser, Lleoliad |

## Gwybodaeth Ategol

### Ailsgilio ac Uwchsgilio

Mae ailsgilio yn cyfeirio at roi sgiliau newydd i unigolion sy'n eu galluogi i symud i rolau neu sectorau gwahanol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd wedi colli eu swyddi, y rhai y mae prosesau awtomeiddio wedi effeithio arnynt, neu'r rhai mewn diwydiannau lle mae'r galw yn newid.

Ar gyfer prosiectau o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, mae ailsgilio'n aml yn canolbwyntio ar alluogi unigolion i symud i'r sector adeiladu, gan gefnogi cyflogaeth leol a mynd i'r afael â phrinder sgiliau. Gallai gweithgareddau ailsgilio gynnwys hyfforddiant galwedigaethol mewn sectorau newydd (e.e. adeiladu, digidol, technolegau gwyrdd), rhaglenni newid gyrfa a/neu gyrsiau byr neu fodiwlau dysgu achrededig.

**(Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw hyfforddiant gorfodol)**

Dylai prosiectau geisio cefnogi unigolion sy'n ailymuno â'r gweithlu, sy'n pontio o sectorau sy'n dirywio a/neu sy'n ceisio symud i rolau mwy crefftus. Gall partneriaid sy'n ymrwymo i Bontio Teg helpu i gefnogi hyn. Mae uwchsgilio yn cyfeirio at wella sgiliau unigolion sydd eisoes mewn cyflogaeth i'w helpu i symud i rolau uwch neu addasu i dechnolegau a dulliau newydd.

Gallai gweithgareddau uwchsgilio gynnwys hyfforddiant technegol, cyrsiau arwain a rheoli neu addysg sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd. Y nod yw helpu unigolion i ddatblygu eu gyrfa a sicrhau bod y gweithlu yn gystadleuol o hyd ar adeg pan fo diwydiannau'n newid.

**(Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw hyfforddiant gorfodol)**

### Cyfrifon Dysgu Personol

Mae cynllun Cyfrifon Dysgu Personol Llywodraeth Cymru yn darparu cyrsiau hyblyg wedi'u hariannu'n llawn er mwyn helpu unigolion i ailsgilio ac ymuno â sectorau newydd neu uwchsgilio er mwyn datblygu eu gyrfa. Mae meysydd blaenoriaeth yn cynnwys adeiladu, sgiliau digidol, a thechnolegau gwyrdd, yn gyson ag amcanion y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i gefnogi cynaliadwyedd a chyflogaeth yn lleol.

Gall dysgwyr cymwys (19+ oed, sy'n byw yng Nghymru, ac sy'n ennill llai na throthwy penodol) ddilyn cyrsiau byr achrededig, modiwlau dysgu, a hyfforddiant galwedigaethol drwy Gyfrifon Dysgu Personol. Nid oes cap ar enillion ar gyfer cyrsiau neu gymwysterau cymeradwy ym maes sgiliau gwyrdd neu ddigidol. Ceir rhagor o fanylion a meini prawf cymhwystra yma.

### Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn helpu i feithrin gweithleoedd cynhwysol drwy godi ymwybyddiaeth o ragfarn ddiarwybod, hyrwyddo ymddygiad parchus, ac ymwreiddio tegwch o ran recriwtio a dyrchafu. Enghreifftiau o weithgareddau hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant:

- Gweithdai ar iaith ac ymddygiad cynhwysol
- Hyfforddiant ar y Ddeddf Cydraddoldeb a nodweddion gwarchodedig
- Sesiynau ar gymhwysedd diwylliannol, niwroamrywiaeth, a chynghreiriaeth

### Addysg a Hyfforddiant ar Gefnogi Cynaliadwyedd

**Sesiynau Addysg –** Mae addysg ar gynaliadwyedd yn meithrin ymwybyddiaeth o newid hinsawdd, effeithlonrwydd adnoddau, a chyfrifoldeb ecolegol. Mae'n cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i stiwardiaeth amgylcheddol a sicrhau bod seilwaith yn addas i'r dyfodol. Dylai'r sesiynau hyn fod yn gynhwysol ac yn ymarferol, a dylent gysylltu â chymwysiadau go iawn yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Gallai sesiynau gynnwys:

- Gweithdai ar lythrennedd carbon a gweithredu ar newid hinsawdd
- Hyfforddiant ar arferion adeiladu cynaliadwy
- Addysg ar fioamrywiaeth, economi gylchol, ac effeithlonrwydd ynni
- Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd yn y gymuned neu mewn ysgolion

**Gwirfoddoli ym maes Cadwraeth Amgylcheddol** – Mae gwirfoddoli yn cefnogi gwaith ymgysylltu â chymunedau a chydnerthedd amgylcheddol. Gall prosiectau'r

Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy gyfrannu drwy annog staff, contractwyr, a dysgwyr i gymryd rhan yn y canlynol:

- Plannu coed ac adfer cynefinoedd
- Glanhau afonydd a'r arfordir
- Arolygon o fioamrywiaeth a phrosiectau gwyddoniaeth i ddinasyddion
- Cynnal a chadw mannau gwyrdd a gerddi cymunedol

## Mentrau Cymunedol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

**DPA 5: Ymgysylltu â'r Gymuned a Chyfranogiad Cymunedol**

| Maes Targed | Dangosydd Is-gategori | Metrigau | Amlder Adrodd | Tystiolaeth sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|
| **Mentrau Cymunedol** | Oriau gwirfoddol i gefnogi sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil | Nifer oriau gwirfoddoli staff | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Tystiolaeth ffotograffig o weithgareddau gwirfoddoli |
| | Cyfarpar neu adnoddau a roddir i sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil | Gwerth cyfatebol mewn £ | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Llythyrau o gydnabyddiaeth gan sefydliadau sydd wedi derbyn cyfarpar neu adnoddau |
| | Rhoddion i brosiectau cymunedol lleol | £ | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Cadarnhad o drosglwyddiadau banc neu lythyrau dyfarnu grant |
| | Mentrau Ymgysylltu Diwylliannol | Nifer y gweithgareddau | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Cofnodion presenoldeb dienw |
| | Annog y defnydd o'r Gymraeg | Nifer y gweithgareddau sy'n cefnogi/annog y defnydd o'r Gymraeg | Ch2 a Ch4 Adroddiad Cau | Rhestr o fentrau |
| | Hybu llesiant pobl ifanc ac oedolion agored i niwed | Nifer y gweithgareddau | Adroddiad Cau Ch2 a Ch4 | Rhestr o fentrau |
| **Pontio Teg** | Mae'r prif gontractwr wedi ymrwymo i Bontio Teg | Do/Naddo | Cadarnhad | Polisi |

## Gwybodaeth Ategol

### Cyfraniadau Cymunedol

Dylai contractwyr wneud cyfraniadau ystyrlon i'r trydydd sector a chymdeithas sifil drwy wneud rhoddion, rhannu adnoddau, a gwirfoddoli. Mae'r ymdrechion hyn yn chwarae rôl hollbwysig wrth gryfhau sefydliadau lleol, cefnogi cymunedau sy'n cael eu hymylu, a meithrin gwydnwch cymunedol hirdymor. Mae mentrau cymeithasol, elusennau a busnesau bach yn aml wrth wraidd y gwaith hwn.

Caiff partneriaid cyflawni eu hannog i gefnogi'r grwpiau hyn drwy'r dulliau canlynol:

- **Oriau gwirfoddol i gefnogi sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau cymdeithas sifil –** Gallai hyn gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau, mentora, neu gymorth ymarferol â mentrau cymunedol.

- **Cyfarpar neu adnoddau a roddir** – Gallai cyfraniadau gynnwys cyfarpar TG, dodrefn, adnoddau, neu ddeunyddiau dros ben. Dylai'r gwerth amcangyfrifedig fod yn seiliedig ar y gost brynu wreiddiol. Gall y rhoddion hyn gynyddu gallu gweithredol sefydliadau llawr gwlad yn sylweddol.

- **Rhoddion ariannol i brosiectau cymunedol lleol** – Mae cymorth ariannol ar gyfer mentrau lleol, elusennau, neu raglenni bach yn helpu i gynnal gwasanaethau hanfodol ac yn grymuso cymunedau i fynd i'r afael â'u heriau eu hunain.

Drwy ymgysylltu â'r sefydliadau hyn a'u cefnogi, bydd partneriaid cyflawni yn helpu i sicrhau bod buddion y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cyrraedd y rhai sydd eu hangen fwyaf.

### Mentrau Ymgysylltu Diwylliannol

Gall mentrau diwylliannol ac ymgysylltu gynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau. Dylai'r mentrau hyn geisio amddiffyn, hyrwyddo ac annog cyfranogiad mewn asedau diwylliannol a threftadaeth. Ceir enghreifftiau isod a dylid eu defnyddio fel canllaw:

**Gwarchod Asedau Treftadaeth**

- Tirweddau, adeiladau hanesyddol, henebion
- Parciau a gerddi
- Safleoedd Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Treftadaeth ddiwydiannol (e.e., rheiffyrdd, camlesi hanesyddol)

**Hyrwyddo Mynediad a Gwerthfawrogiad Diwylliannol**

- Cynyddu defnydd a phresenoldeb o ran y canlynol:
    - Safleoedd ac asedau treftadaeth
    - Amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd
    - Lleoliadau celfyddydol (e.e., theatr, perfformiad, dawns, cerddoriaeth, orielau)

    - Digwyddiadau chwaraeon (lleol a chenedlaethol)

**Annog Cyfranogiad mewn Gweithgareddau Diwylliannol**

- Cyfranogiad yn y celfyddydau (e.e., theatr, perfformiad, dawns, cerddoriaeth, orielau)

## Annog y defnydd o'r Gymraeg

Nod Cymraeg 2050, sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal â dyblu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Er mwyn creu'r amodau i gyflawni hyn, mae angen i bobl gael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae enghreifftiau o fentrau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a thu hwnt yn cynnwys y canlynol:

- Trefnu digwyddiadau cerddoriaeth a chwaraeon Cymraeg ar y cyd â sefydliadau fel Urdd Gobaith Cymru neu'r Fenter Iaith leol
- Cofrestru â'r Cynllun Llysgenhadon Diwylliannol er mwyn dysgu sut i helpu newydd-ddyfodiaid i gymunedau ledled Cymru i ddysgu mwy am Gymru, y Gymraeg a'i phwysigrwydd i'r gymuned, rhoi cymorth ac arweiniad i fusnesau mewn perthynas â defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, a gweithio'n lleol i gynnal a chryfhau rhwydweithiau cymdeithasol
- Yn y gweithle, cynnig amrywiaeth eang o hyfforddiant iaith yn ogystal ag annog staff i ddefnyddio ymadroddion Cymraeg syml drwy fabwysiadu technoleg fel ARFer.

## Cefnogi Iechyd a Llesiant Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cydnabod pwysigrwydd hybu iechyd a llesiant pobl ifanc ac oedolion agored i niwed fel rhan o'i hymrwymiadau gwerth cymdeithasol ehangach. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i feithrin cymunedau gwydn a sicrhau bod unigolion sy'n wynebu heriau ychwanegol yn cael cymorth i ffynnu.

Gallai enghreifftiau o weithgareddau gynnwys:

- Sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl neu grwpiau cymorth cymheiriaid
- Gweithdai sgiliau bywyd
- Hyfforddiant diogelu a gwydnwch a gynhelir mewn ysgolion neu leoliadau cymunedol.
- Mentrau llesiant corfforol fel chwaraeon, maeth, neu weithgareddau awyr agored, sy'n ceisio:
    - Cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc;
    - Gwella canlyniadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl;
    - Mynd i'r afael â gordewdra a diffyg ymarfer corff;
    - Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lleihau ynysu.

## Pontio Teg

Pontio Teg yw'r syniad y dylai'r newid tuag at economi sy'n fwy cynaliadwy a gwyrdd ddigwydd mewn ffordd deg a chynhwysol nad yw'n gadael neb ar ôl.[viii] Y nod yw blaenoriaethu buddiannau'r rhai y bydd y broses o bontio i sero net yn effeithio arnynt fwyaf, gan gynnwys gweithwyr, cymunedau agored i niwed a chyflenwyr nwyddau a gwasanaethau, yn benodol microfusnesau, busnesau bach a busnesau canolig (MSMEs).[ix]

Yn ôl adnodd Olrhain Swyddi Rhwydwaith Gweithredu ar Newid Hinsawdd Seiliedig ar Le (PCAN) y DU, mae'r broses o bontio i economi carbon sero net yn debygol o effeithio ar 6.3 miliwn o swyddi yn y DU (un o bob pump), a bydd angen uwchsgilio tua 30% o weithwyr yn y sector adeiladu.[x]

Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn dibynnu'n fawr ar y sector adeiladu ac felly mae'n nodi'r angen i gefnogi'r sector adeiladu a'r cymunedau lle lleolir ein prosiectau.

Mae'r math o gymunedau y bydd ymdrechion datgarboneiddio yn effeithio arnynt ac y gall y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy eu helpu yn cynnwys, ymhlith eraill:

- **Ardaloedd o amddifadedd** lle mae'n bosibl nad oes gan gymunedau y seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i addasu'n gyflym i newidiadau yn yr amgylchedd;

- **Lleoedd â phresenoldeb diwydiannol amlwg** - fel y rhai sy'n dibynnu ar gynhyrchu nwyddau uchel o ran carbon, neu weithgynhyrchu trwm, mae'r rhain yn wynebu risg wrth i'r economi bontio i dechnoleg lân.

Nid oes un ateb sy'n addas i bawb ac hyd nes y caiff y Fframwaith Pontio Teg ei ryddhau, mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn annog contractwyr Haen 1 i ymrwymo i Bontio Teg a chydnabod effeithiau cymdeithasol eu hymdrechion datgarboneiddio nhw ac ymdrechion datgarboneiddio diwydiannau ehangach.

## 6. Caethwasiaeth Fodern

Mae caethwasiaeth fodern yn golygu camfanteisio'n ddifrifol ar bobl er budd personol neu fasnachol, gan ddefnyddio dulliau fel masnachu pobl, bygythiadau, llafur gorfodol, caethwasanaeth oherwydd dyledion, a chymryd dogfennau. Gall ddigwydd mewn sawl ffordd ac mae'n aml yn ymdreiddio i gadwyni cyflenwi ein nwyddau a'n gwasanaethau.[xi]

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi polisïau a phrosesau ar waith i'n helpu i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, o fewn ein sefydliad a chadwyni cyflenwi, ac mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y mesurau canlynol, ymhlith eraill:

**Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Cymru -** Mae Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Cymru, a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dod â sefydliadau o bob rhan o gymdeithas ynghyd, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, partneriaid cymdeithasol a'r trydydd sector, er mwyn arwain a chydgysylltu ymdrechion i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern ledled Cymru.

**Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi -** Mae'r Cod Ymarfer, a gyhoeddwyd yn 2017, yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n ymrwymo iddo gymryd camau i ddileu arferion cyflogaeth anfoesegol ac anghyfreithlon, yn ogystal â sicrhau bod pob gweithiwr ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi yn cael ei drin yn deg. Hyd yma, mae mwy na 500 o sefydliadau wedi cofrestru ac yn ymwreiddio'r Cod yn eu polisïau a phrosesau. [xii]

**Datganiad Polisi Caffael Cymru -** Mae'r datganiad yn nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys 10 egwyddor allweddol sy'n canolbwyntio ar lesiant pobl yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu caethwasiaeth fodern o bob math. Drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, rydym yn gofyn y canlynol:

- Wrth dendro contractau, dylai partneriaid ofyn am sicrwydd bod gan ddarpar gontractwyr brosesau addas a chadarn ar waith a fydd yn lliniaru unrhyw risg o gaethwasiaeth fodern yn eu sefydliad.
- Rydym yn annog partneriaid i ymrwymo i'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a'i hyrwyddo drwy eu cadwyn gyflenwi.
- Gofyn i bartneriaid fynnu bod contractwyr yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o ran cyhoeddi datganiadau caethwasiaeth fodern.

### Hyfforddiant

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'n rheolaidd hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth caethwasiaeth fodern yn allanol. Mae'r hyfforddiant hwn yn tynnu sylw at arwyddion o gaethwasiaeth fodern a sut i roi gwybod am bryderon, gan gynnwys cysylltu â'r Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern a Chamfanteisio. [xiii]

## 7. Contractau Tendro

Drwy'r broses dendro ar gyfer prosiectau, mae'n hanfodol bod y partner cyflawni (y cleient) yn nodi'n glir yr amcanion gwerth cymdeithasol y mae'n rhaid eu cyflawni wrth roi'r prosiect ar waith.

Mae hyn yn sicrhau cysondeb cynnar ag anghenion cymunedol ac yn helpu i ddatblygu mentrau ystyrlon ac effeithiol. Er y dylid annog y prif gontractwr i gyfrannu at y gwaith o gynllunio sut y caiff yr amcanion hyn eu cyflawni, y cleient sy'n gyfrifol am arwain y broses hon. Nid y contractwr yn unig ddylai ddiffinio gwerth cymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ddewis metrigau seiliedig ar le, a ddylai adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd penodol yn y gymuned a wasanaethir gan y prosiect.

Yn ogystal, dylid disgwyl i dîm ehangach y prosiect, gan gynnwys ymgynghorwyr fel penseiri a dylunwyr, helpu i gyflawni targedau gwerth cymdeithasol drwy gydweithio â'r prif gontractwr. Mae'r gwasanaethau proffesiynol hyn yn aml yn cyfrif am gyfran sylweddol o wariant y prosiect a gallant chwarae rôl allweddol wrth sicrhau gwerth cymdeithasol.

Ar y cam tendro, rhaid i'r cleient gynnwys y targedau gwerth cymdeithasol y bydd yn ofynnol i'r prosiect eu cyflawni yn y gwahoddiad i dendro. Yna, rhaid i'r amcanion gwerth cymdeithasol y cytunir arnynt gael eu hymgorffori yn yr achos busnes llawn neu'r achos cyfiawnhad busnes. Cânt eu hadlewyrchu'n ddiweddarach yn y llythyr dyfarnu grant ar ôl i'r achos busnes gael ei gymeradwyo gan Banel Buddsoddi mewn Addysg y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Caiff targedau gwerth cymdeithasol eu hystyried fel gwerth ychwanegol at y contract ond unwaith y cytunir arnynt, byddant yn dod yn rhwymedigaethau cytundebol i'r partner cyflawni a rhaid eu rhaeadru i bob cyflenwr sy'n rhan o'r prosiect (gan gynnwys ymgynghorwyr).

Mae adrodd yn erbyn y targedau hyn yn un o amodau arian grant a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy Broses Fonitro'r rhaglen.

Rydym yn cydnabod y gall amgylchiadau newid yn ystod y broses gyflawni. Os ceir rheswm dilys pam na all targedau gael eu cyflawni, rhaid i bartneriaid ddilyn y broses Addasu Targedau. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw addasiadau yn seiliedig ar dystiolaeth, yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, a'u bod yn cael eu dogfennu er mwyn sicrhau tryloywder. Lle cytunir i ostwng targedau, bydd angen gorgyflawni ar dargedau eraill i wneud iawn am hynny ac i gynnal ymrwymiadau gwerth cymdeithasol yn gyffredinol.

## 8. Y Broses Fonitro

Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n derbyn grantiau (partneriaid cyflawni) ymwreiddio prosesau adrodd ar werth cymdeithasol ym mhob rhan o gylch oes y prosiect. Mae hyn yn cynnwys:

- **Dechrau'r prosiect:** Mae'n ofynnol i bartneriaid benderfynu beth a gaiff ei gyflawni ac ymrwymo i dargedau cyflawni gofynnol. Dylai partneriaid gyfeirio at Contractau Tendro i ddeall y disgwyliadau cyn cyflawni a Dechrau'r Prosiect i sicrhau bod y dogfennau cywir yn cael eu cwblhau.
- **Yn ystod y prosiect:** Mae'n ofynnol i bartneriaid gwblhau a chyflwyno datganiadau Hanner Blwyddyn (Ch2) a datganiadau Blynyddol (Ch4). Bydd hyn yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, gan roi cyfle i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy nodi unrhyw risgiau neu faterion o ran perfformiad a thynnu sylw partneriaid cyflawni atynt. O dan amodau'r grant, rhaid cwblhau'r datganiadau hyn yn llawn a'u cyflwyno i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- **Cwblhau'r prosiect:** Mae'n ofynnol i bartneriaid gwblhau a chyflwyno adroddiad terfynol o fewn 18 mis i gwblhau'r prosiect. Bydd yr adroddiad hwn yn cadarnhau'r canlyniadau gwerth cymdeithasol gwirioneddol a gyflawnwyd. Dylai partneriaid gyfeirio at Diwedd y Prosiect i sicrhau bod y ddogfen gywir yn cael ei chwblhau'n llawn a'i chyflwyno yn unol ag amodau'r grant.

**Rhaid anfon pob datganiad i cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru, ar amser a dylid eu cwblhau'n llawn yn unol ag amodau'r grant. Bydd timau cyflawni yn derbyn gohebiaeth cyn y cyfnod hwn.**

## 8.1 Dechrau a Diwedd y Prosiect

Ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect, mae'n ofynnol i bartneriaid gwblhau Atodiad 8 – Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect. Dogfen adrodd newydd yw hon sy'n cofnodi data ar faterion Cytundebol a Chaffael, Cyllid, Gwerth Cymdeithasol, Buddion a Chanlyniadau a'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ar gyfer y Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect a'r Adroddiad Cau.

Isod ceir rhagolwg o'r daflen Gwerth Cymdeithasol yn Atodiad 8 - Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect. Mae hyn yn gymwys i ddechrau (ffurflen wybodaeth am y prosiect), a diwedd y prosiect (adroddiad cau).

| Adran 2 – Targedau Gwerth Cymdeithasol Craidd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **DPA** | **Dangosydd yr Is-gategori** | **Metrig** | **Meincnod** | **Targed Achos Busnes** | **Gwirioneddol** |
| DPA 1: Effaith ar | **Cyfanswm y Cyflogeion yn y Gadwyn Gyflenwi drwy gydol y contract** | *Cyfanswm y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a benodwyd neu a gadwyd drwy gydol y contract ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi* | Casglu Data | *Ddim yn Berthnasol* | |

**DELWEDD 5: RHAGOLWG O ATODIAD 8: FFURFLEN WYBODAETH AM Y PROSIECT**

### Dechrau'r Prosiect

Dylai partneriaid gyfeirio at Contractau Tendro i ddeall disgwyliadau cyn cyflawni. Er y dylid annog y prif gontractwr i gyfrannu at y gwaith o gynllunio sut y caiff yr amcanion hyn eu cyflawni, y cleient sy'n gyfrifol am arwain y broses hon.

Ar ôl cytuno arnynt, dylid cwblhau Atodiad 8 – Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect, yn llawn a'i ddychwelyd i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan amlinellu'r targedau gofynnol ar gyfer y metrigau gwerth cymdeithasol craidd, pa fetrigau gwerth cymdeithasol seiliedig ar le a gaiff eu defnyddio, a'r targedau ar gyfer pob un. Bydd hyn yn rhoi gwybod i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy am effaith ddisgwyliedig y prosiect o ran gwerth cymdeithasol. Dylai partneriaid gwblhau'r golofn 'Targed Achos Busnes' yn llawn. Mae'r golofn hon i'w gweld mewn glas yn Nelwedd 5.

Yn achos rhai o'r metrigau, dim ond ar ddiwedd y prosiect y mae angen casglu data ar eu cyfer, felly nid oes angen iddynt fod yn gyflawn ar y cam hwn (nodwyd Dd/G ar gyfer y rhain).

### Diwedd y Prosiect

Ar ddiwedd y prosiect, dylai Atodiad 8 – Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect gael ei gwblhau'n llawn a darparu'r cyfansymiau cronnol terfynol ar gyfer yr hyn y mae'r prosiect wedi ei gyflawni. Dylai partneriaid gwblhau'r golofn ‘Gwirioneddol’ sydd i'w gweld mewn coch yn Nelwedd 5. Bydd yr adroddiad hwn yn cofnodi effaith lawn y prosiect a rhaid ei gyflwyno o fewn 18 mis i gwblhau'r prosiect.

**Rhaid i bartneriaid gyflwyno'r datganiadau yn Atodiad 8 – Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect, eu Hadroddiad Cau, i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy drwy e-bost (cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru), o fewn 18 mis i gwblhau'r prosiect. Bydd timau cyflawni yn derbyn gohebiaeth cyn y cyfnod hwn. Mae hyn yn un o amodau'r cyllid ac fel arall ni chaiff arian yr arian a gedwir yn ôl ei ryddhau.**

## 8.2 Yn Ystod y Prosiect

Yn ystod y prosiect, rhaid i bartneriaid gwblhau datganiadau Hanner Blwyddyn (Ch2) a datganiadau Blynyddol (Ch4) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy am gynnydd tuag at effaith gwerth cymdeithasol. Rhaid cwblhau hyn trwy gyflawni Atodiad 1a – Adrodd ar Berfformiad Gwerth Cymdeithasol.

Rhaid cadw at yr amserlen adrodd ganlynol a rhaid gwneud pob cyflwyniad ar amser ac yn y fformat cywir.

### Datganiad Hanner Blwyddyn (Ch2)

Ar ddiwedd Ch2, mae'n ofynnol i bartneriaid gwblhau Atodiad 1a – Adrodd ar Berfformiad Gwerth Cymdeithasol, er mwyn cyflwyno data perfformiad cronnol yn erbyn metrigau craidd a metrigau seiliedig ar le. Dylai partneriaid weithio gyda'r prif gontractwr i sefydlu a chadarnhau'r data.

Dylai'r datganiadau hyn adlewyrchu'r holl gynnydd hyd yma. Caiff y golofn ‘Targed Achos Busnes’ ei chwblhau gan dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy gan ddefnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd ar ddechrau'r prosiect yn Atodiad 8 – Ffurflen Wybodaeth am y Prosiect. Mae'n ofynnol i bartneriaid gwblhau'r golofn ‘Cyfanswm Cronnol’, sydd i'w gweld mewn glas yn Nelwedd 6 isod.

| Adran 2 – Targedau Gwerth Cymdeithasol Craidd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) | Dangosydd yr Is-gategori | Metrig | Meincnod | Targed Achos Busnes | Cyfanswm Cronnol |
| *(Dangosydd Perfformiad Allweddol)* | | | | *Llywodraeth Cymru i'w gwblhau* | *Partner Cyflawni i'w gwblhau* |
| | **Swyddi a Grëwyd i Ddechreuwyr Newydd** | *Nifer y Swyddi a Grëwyd i Ddechreuwyr Newydd* | Diffinnir ar lefel y prosiect | | |

**DELWEDD 6: RHAGOLWG O DARGEDAU GWERTH CYMDEITHASOL CRAIDD YN NHEMPLED CH2 YN ATODIAD 1A - ADRODD AR BERFFORMIAD GWERTH CYMDEITHASOL**

Caiff metrigau gwerth cymdeithasol seiliedig ar le eu rhestru ar yr un daflen, o dan Adran 3. Dim ond y metrigau y gwnaethant ymrwymo iddynt ar ddechrau'r prosiect y dylai partneriaid eu gweld. Dylai partneriaid ddilyn yr un broses â thargedau gwerth cymdeithasol craidd, gan ddarparu cyfansymiau cronnol ar gyfer cynnydd yn erbyn pob targed. Dangosir enghraifft yn Nelwedd 7.

| Adran 3 – Metrigau Seiliedig ar Leoedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DPA | Dangosydd | Dangosydd yr Is-gategori | Metrig | Targed Achos Busnes | Cyfanswm Cronnol |
| *(Dangosydd Perfformiad Allweddol)* | | | | *Llywodraeth Cymru i'w gwblhau* | *Partner Cyflawni i'w gwblhau* |
| | | Yn ddi-waith am gyfnod hir (yn ddi-waith am flwyddyn neu fwy) | *Nifer y cyflogeion (cyfwerth ag amser llawn) a benodwyd neu a gadwyd* | | |

**DELWEDD 7: RHAGOLWG O DARGEDAU SEILIEDIG AR LE YN NHEMPLED CH2 YN ATODIAD 1A - ADRODD AR BERFFORMIAD GWERTH CYMDEITHASOL**

**Rhaid i bartneriaid gyflwyno eu datganiadau i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru), o fewn pedair wythnos i ddiwedd Ch2, sef erbyn diwedd mis Hydref. Bydd timau cyflawni yn derbyn gohebiaeth cyn y cyfnod hwn.**

## Datganiad Blynyddol (Ch4)

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bartneriaid gwblhau adroddiad Ch4 yn Atodiad 1a – Adrodd Ar Berfformiad Gwerth Cymdeithasol. Mae'n dilyn yr un fformat ag adroddiad Ch2, ond mae'n cynnwys metrigau ychwanegol ar gyfer adroddiadau blynyddol yn unig (er enghraifft, metrigau cod post cartref a gwariant yng Nghymru).

Yn yr un modd yn union ag adroddiad Ch2, rhaid i bartneriaid ddarparu cyfansymiau cronnol sy'n adlewyrchu'r holl gynnydd hyd yma yn erbyn y targedau y cytunwyd arnynt. Mae'n ofynnol i bartneriaid gwblhau'r golofn 'Cyfanswm Cronnol', sydd i'w gweld mewn glas yn Nelwedd 8 isod.

| Adran 2 – Targedau Gwerth Cymdeithasol Craidd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **DPA** | **Dangosydd yr Is-gategori** | **Metrig** | **Meincnod** | **Targed Achos Busnes** | **Cyfanswm Cronnol** |
| *(Dangosydd Perfformiad Allweddol)* | | | | *Llywodraeth Cymru i'w gwblhau* | *Partner Cyflawni i'w gwblhau* |
| | **Cyfanswm y Cyflogeion yn y Gadwyn Gyflenwi drwy gydol y contract** | *Cyfanswm y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a benodwyd neu a gadwyd drwy gydol y contract ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi* | Casglu Data | *Ddim yn berthnasol* | |

**DELWEDD 8: RHAGOLWG O DARGEDAU GWERTH CYMDEITHASOL CRAIDD YN NHEMPLED CH4 YN ATODIAD 1A - ADRODD AR BERFFORMIAD GWERTH CYMDEITHASOL**

Caiff metrigau gwerth cymdeithasol seiliedig ar le eu rhestru ar y daflen, o dan Adran 1. Dim ond y metrigau y gwnaethant ymrwymo iddynt ar ddechrau'r prosiect y dylai partneriaid eu gweld. Dylai partneriaid ddilyn yr un broses â thargedau gwerth cymdeithasol craidd, gan ddarparu cyfansymiau cronnol ar gyfer cynnydd yn erbyn pob targed

| Adran 3 – Targedau Seiliedig ar Leoedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **DPA** | **Dangosydd** | **Dangosydd yr Is-gategori** | **Metrig** | **Targed Achos Busnes** | **Cyfanswm Cronnol** |
| *(Dangosydd Perfformiad Allweddol)* | | | | *Llywodraeth Cymru i'w gwblhau* | *Partner Cyflawni i'w gwblhau* |
| | | Yn ddi-waith am gyfnod hir (yn ddi-waith am flwyddyn neu fwy) | *Nifer y cyflogeion (cyfwerth ag amser llawn) a benodwyd neu a gadwyd* | | |

**DELWEDD 9: RHAGOLWG O DARGEDAU GWERTH CYMDEITHASOL SEILIEDIG AR LE YN NHEMPLED CH4 YN ATODIAD 1A - ADRODD AR BERFFORMIAD GWERTH CYMDEITHASOL**

**Rhaid i bartneriaid gyflwyno eu datganiadau i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru), o fewn pedair wythnos i ddiwedd Ch4, sef erbyn diwedd mis Ebrill. Bydd timau cyflawni yn derbyn gohebiaeth cyn y cyfnod hwn.**

### 8.3 Adrodd ar Gydymffurfiaeth

#### Addasu Targedau

Bwriedir i'r canllawiau hyn gefnogi partneriaid cyflawni, ond rydym yn cydnabod y gall amgylchiadau godi lle bydd angen bod yn hyblyg. Mewn achosion eithriadol y gellir eu cyfiawnhau, gellir defnyddio disgresiwn cyn tendro, ar ôl tendro ac yn ystod y broses gyflawni i ostwng a chynyddu targedau lle bo hynny'n briodol.

- Dim ond os oes rheswm clir â thystiolaeth y dylid gwneud hynny.
- Rhaid cydbwyso unrhyw ostyngiadau mewn targedau drwy orgyflawni ar darged arall i gynnal ymrwymiadau gwerth cymdeithasol yn gyffredinol.

Er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, rhaid dilyn y broses ganlynol:

1. Rhaid trafod unrhyw ostyngiad arfaethedig mewn targedau â Rheolwr Gwerth Cymdeithasol a Pherfformiad y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy cyn ei roi ar waith.
2. Rhaid i bartneriaid ddarparu'r canlynol:
    a. Rheswm dros y newid
    b. Tystiolaeth i gefnogi'r angen am y disgresiwn
3. Bydd tîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn adolygu'r wybodaeth ac yn cadarnhau cymeradwyaeth.

Caiff pob penderfyniad ei ddogfennu, gan gynnwys y targed gwreiddiol, y targed diwygiedig, y rheswm dros y newid ac unrhyw gamau cydbwyso y cytunir arnynt. Camau cydbwyso yw pan fo targed yn cael ei ostwng a bod yn rhaid gorgyflawni ar darged arall er mwyn sicrhau bod amcanion cyffredinol y rhaglen yn cael eu cyflawni. Cytunir ar y targed cydbwyso yn ystod y broses gymeradwyo.

**Pwysig:**
- Dylid ystyried meincnodau a chytuno arnynt yn ystod y cam achos busnes.
- Os gwelir nad oes modd cyflawni targedau ar ôl gwneud gwaith gwerthuso neu yn ystod y gwaith o gyflawni'r prosiect, rhaid i bartneriaid roi gwybod am hyn ar unwaith a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer addasiadau.
- Mae'r ffocws o hyd ar ganlyniadau ansawdd, nid ar niferoedd uchel.

### Amserol

Mae cyflwyno pob adroddiad yn amserol yn un o amodau arian grant. Os na fodlonir terfynau amser ar gyfer adrodd, gallai hyn arwain at oedi o ran taliadau neu oblygiadau cytundebol eraill. Mae'n ofynnol i bartneriaid gadw cofnodion cywir drwy gydol y prosiect i gefnogi adroddiadau o ansawdd uchel.

**Rhaid anfon pob datganiad i cymunedaudysgucynaliadwy@llyw.cymru, ar amser a dylid eu cwblhau'n llawn yn unol ag amodau'r grant. Bydd timau cyflawni yn derbyn gohebiaeth cyn cyfnodau adrodd.**

## 9. Cwestiynau Cyffredin

### 1. Pwy sy'n gorfod adrodd ar y metrigau perfformiad?

Partneriaid cyflawni (awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach) sy'n gyfrifol am gyflwyno datganiadau wedi'u cwblhau i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Rhaid i bartneriaid cyflawni weithio'n agos gyda'u prif gontractwyr ac ymgynghorwyr i sicrhau bod data cywir yn cael eu casglu a bod datganiadau yn cael eu cyflwyno'n amserol. Er mai'r partneriaid cyflawni sy'n bennaf cyfrifol, mae disgwyl i gontractwyr ac ymgynghorwyr gefnogi'r broses hon drwy ddarparu'r wybodaeth a'r dystiolaeth angenrheidiol.

### 2. A yw'n ofynnol i brosiectau a gafodd eu caffael cyn i'r meincnodau newydd a diwygiedig hyn gael eu cyflwyno, gofnodi gwybodaeth am werth cymdeithasol neu a ddylid defnyddio'r Canllawiau Buddion Cymunedol blaenorol?

Mae'r Canllawiau Gwerth Cymdeithasol yn gymwys i bob prosiect sy'n dechrau ar y cam Achos Busnes Llawn ar ôl mis Chwefror 2026. Fodd bynnag, dylai prosiectau a gafodd eu cymeradwyo cyn mis Chwefror 2026 ddilyn y templed adrodd newydd o fis Ebrill 2025 hefyd, gan gwblhau'r adrannau y mae'n bosibl iddynt eu cwblhau. Os bydd cyfle i gynnwys y metrigau newydd o'r Canllawiau Gwerth Cymdeithasol hyn fel ffordd o gasglu data, caiff partneriaid cyflawni eu hannog i wneud hynny.

### 3. A ddylid cytuno ar dargedau cyn dechrau'r broses dendro?

Dylid. Dylid ystyried meincnodau a chytuno arnynt yn ystod y cam achos busnes, wrth sefydlu'r dull Gwerth Cymdeithasol. Dylai partneriaid gyfeirio at yr Achos Masnachol yng Nghanllawiau Achos Busnes y Rhaglen. Mae hyn yn sicrhau eglurder i gynigwyr ac yn osgoi targedau afrealistig yn ddiweddarach yn y broses.

### 4. Beth fydd yn digwydd os na chaiff meincnodau eu bodloni ar ôl gwerthuso'r tendr?

Os na ellir cyflawni targedau ar ôl gwneud gwaith gwerthuso neu yn ystod y gwaith o gyflawni'r prosiect, rhaid i bartneriaid roi gwybod am hyn ar unwaith a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer addasiadau drwy'r broses Addasu Targedau. Bydd tîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn adolygu'r rhesymau a'r dystiolaeth cyn cadarnhau unrhyw newidiadau.

### 5. A ellir newid targedau ar ôl tendro?

Gellir. Mae'r un broses addasu yn gymwys ar ôl tendro ac yn ystod y gwaith o gyflawni'r prosiect. Rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cyfiawnhau, eu dogfennu, a'u cymeradwyo gan Reolwr Gwerth Cymdeithasol a Pherfformiad y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## 6. A yw'r meincnodau yr un fath i bob ardal yng Nghymru?

Mae meincnodau yn gyson ond rydym yn cydnabod bod rhai ardaloedd yn wynebu heriau unigryw (e.e., recriwtio prentisiaid mewn ardaloedd gwledig, dod o hyd i weithlu lleol ar gyfer prosiectau ar y ffin). Gellir gwneud addasiadau drwy'r broses Addasu Targedau, ar yr amod eu bod yn realistig ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

## 7. A oes angen cydbwyso gostyngiadau mewn targedau?

Oes. Rhaid cydbwyso unrhyw ostyngiad mewn un targed drwy orgyflawni ar darged arall i gynnal ymrwymiadau gwerth cymdeithasol yn gyffredinol. Cytunir ar hyn yn ystod y broses gymeradwyo.

## 8. Beth yw diben yr wybodaeth ac at be ddiben y mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio?

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i asesu cynnydd prosiect, hyrwyddo cyflawniadau gan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael gwybod am y buddion ehangach a gyflwynir drwy fuddsoddiad y Rhaglen. Caiff y data eu defnyddio hefyd i adrodd ar gyflawniadau yn erbyn amcanion ehangach Llywodraeth Cymru. Caiff y data eu dadansoddi hefyd a'u defnyddio i adolygu meincnodau yn y dyfodol.

## 9. Sut y gwnaethoch lunio'r meincnodau?

Mae tîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys tîm Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru, Fframweithiau Caffael Rhanbarthol, timau awdurdodau lleol a chontractwyr.

Mae data a gasglwyd o brosiectau blaenorol wedi cael eu hadolygu fel rhan o'r broses i ddiweddaru'r ddogfen hon. Ochr yn ochr â hyn, cafodd Grŵp Llywio ei sefydlu gyda phartneriaid o awdurdodau lleol a chontractwyr ledled Cymru i adolygu'r diffiniadau a'r meincnodau presennol.

## 10. Beth fydd yn digwydd os na all partneriaid gyflawni'r targedau a bennir?

Mae disgwyl i bartneriaid cyflawni fodloni'r meincnodau fan lleiaf. Os bydd partner cyflawni yn cael anhawster cyflawni'r targedau, dylai roi gwybod i dîm y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Bydd Rheolwr Gwerth Cymdeithasol a Pherfformiad y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn asesu pob achos yn unigol i weld a ellir cydbwyso targed yn erbyn targedau eraill. Os na roddir gwybod i'r tîm a bod partneriaid yn methu â chyflawni targedau, gallai hynny effeithio ar y gallu i ryddhau arian a gedwir yn ôl (gweler Addasu Targedau).

## 11. Mae contractwyr a chleientiaid eisoes yn cwblhau nifer o adnoddau sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol; sut mae symleiddio'r broses?

Fel amod cyllido, mae'n ofynnol i bartneriaid gwblhau datganiadau gwerth cymdeithasol y rhaglen yn unol â'r ddogfen ganllaw hon. Nid yw'n ofynnol i bartneriaid

gwblhau TOMS Cymru a/neu'r Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol hefyd, ond mae croeso iddynt wneud hynny os ydynt yn dymuno.

Rydym wedi gweithio i gysoni ein metrigau â'r adnoddau gwahanol a ddefnyddir i fesur effeithiau gwerth cymdeithasol y tu allan i Lywodraeth Cymru. Mae metrigau wedi cael eu pennu sy'n gyson ag adnoddau eraill i atal partneriaid rhag gorfod darparu sawl set wahanol o ddata.

**12. A fyddai modd cael rhagor o hyfforddiant ar adrodd ar werth cymdeithasol?**

Caiff hyfforddiant ar y broses newydd o adrodd ar werth cymdeithasol ei ddarparu drwy weithdai ar-lein.

**13. Mae'n anodd i gontractwyr gynnal gwersi o ganlyniad i anawsterau o ran capasiti staff a'r sylfaen sgiliau; a all athrawon o'r ysgolion perthnasol gynnal y sesiynau dosbarth gyda'r contractwr yn chwarae rôl gefnogol?**

Gallant, ni ddisgwylir i gontractwyr fod yn athrawon hefyd. Rydym am iddynt gefnogi gwers a rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth â disgyblion.

**14. A gaiff astudiaethau achos eu darparu er mwyn dysgu gan brosiectau a phartneriaid eraill?**

Bydd gwybodaeth ar gyfer astudiaethau achos yn cael ei chasglu fel rhan o ddatganiad data chwarterol olaf partner. Caiff astudiaethau achos eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn yng Nghylchlythyr y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

---

[i] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU

[ii] Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

[iii] Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) 010: Cyfrifon banc prosiectau [HTML] | LLYW.CYMRU

[iv] Ystadegau'r farchnad lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): Gorffennaf 2023 i Fehefin 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU

[v] Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2022 a 2023 (dros dro) [HTML] | LLYW.CYMRU

[vi] Sta/Medr/04/2025: Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025 - Medr

[vii] ReAct Plws | Cymru'n Gweithio

[viii] Leaving No One Behind in the Transition Towards a Low-Carbon Economy | UNFCCC

[ix] What is the just transition and what does it mean for climate action? - Grantham Research Institute on Climate Change and the Environment

[x] Tracking local employment in the green economy: The PCAN Just Transition Jobs Tracker | Place Based Climate Action Network

[xi] https://www.llyw.cymru/datganiad-caethwasiaeth-fodern-llywodraeth-cymru#128352.

[xii] https://www.llyw.cymru/datganiad-caethwasiaeth-fodern-llywodraeth-cymru#128352

[xiii] https://www.llyw.cymru/datganiad-caethwasiaeth-fodern-llywodraeth-cymru#128362.